This document is also available in English

CYNNWYS

**ADRAN 14**


**14. Cyfrifoldeb am Swyddogaethau**

14.1 Cyfrifoldeb am Swyddogaethau - Crynodeb
14.2 Cyfrifoldeb Am Swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith
14.3 Swyddogaethau Dewis Lleol
14.4 Swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Gwaith yn unig

14.5 Cynllun Dirprwyo Cynllunio
14.6 Pwyllgor Trwyddedu Statudol a Chyffredinol – Dirprwyo Swyddogaethau
14.7 Cynllun Dirprwyo Ar Gyfer Swyddogion
14.8 Dirprwyaeth i Aelodau Unigol o'r Pwyllgor Gweithredol (Y Cabinet)
14.8b Atodiad i Ddirprwyaeth i Aelodau Unigol o'r Cabinet

**ADRAN 14.1**

## Cyfrifoldeb am Swyddogaethau - Crynodeb

Diben yr Adran hon o'r Cyfansoddiad yw amlinellu pwy sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau gwahanol yn y Cyngor.

**14.1.1** Pwy all wneud Penderfyniadau?

O dan y cyfansoddiad hwn, mae yna nifer o wahanol bobl sy'n gwneud penderfyniadau:

- Cyngor Llawn;
- Pwyllgor neu Is-Bwyllgor o'r Cyngor;
- Yr Arweinydd;
- Y Cabinet;
- Pwyllgor o'r Cabinet;
- Aelod unigol o'r Cabinet;
- Cydbwyllgor;
- Cydbwyllgor Corfforedig;
- Swyddog

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ac yn diweddaru cofnod o ba unigolyn sydd â chyfrifoldeb am wahanol fathau o benderfyniadau. Mae'r cofnod wedi'i nodi yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn.

14.1.2 Egwyddorion Gwneud Penderfyniadau

Bydd holl benderfyniadau'r Cyngor yn cael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- yn gymesur (h.y. rhaid i'r camau fod yn gymesur â'r canlyniad a ddymunir);
- ymgynghori'n briodol a chael cyngor proffesiynol gan Swyddogion;
- parchu hawliau dynol;
- rhagdybiaeth o blaid bod yn agored;
- nodau a chanlyniadau dymunol clir;

- ystyried unrhyw opsiynau amgen; a
- rhoi a chofnodi rhesymau dros y penderfyniad a chofnod priodol o'r rhesymau hyn.

14.1.3 Mae swyddogaethau yn perthyn i'r categorïau canlynol:

Swyddogaethau'r Cyngor Llawn

Y Cyngor yw'r prif gorff gwneud penderfyniadau ac fe all, gyda rhai eithriadau, arfer y swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb ar y Cyngor yn ôl y Gyfraith. Gall hefyd ddirprwyo llawer o'r swyddogaethau hynny i Bwyllgor, Is-bwyllgor neu Swyddog. Mae swyddogaethau'r Cyngor Llawn wedi eu nodi yn Adran 4.

Swyddogaethau Anweithredol

Dyma swyddogaethau, yn ôl y gyfraith na chaiff fod yn gyfrifoldeb y Cabinet. Mewn rhai achosion, dim ond cyfarfod o'r Cyngor Llawn all wneud y penderfyniad. Mewn achosion eraill, gall Cyngor ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros wneud y penderfyniad i Bwyllgor neu Swyddog.

Swyddogaethau "Dewis Lleol"

Mae yna rai swyddogaethau y gall y Cyngor eu trin fel rhai sy'n gyfrifoldeb y Cabinet (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) neu yn rhai anweithredol, yn ôl ei ddisgresiwn.

Swyddogaeth Weithredol

Mae'r holl swyddogaethau eraill yn Swyddogaethau Gweithredol.

14.1.4 Cyrff Eraill

Cyrff Ymgynghorol:

Gall y Cyngor a/neu'r Arweinydd hefyd sefydlu Pwyllgorau Ymgynghori a Phwyllgorau Ymgynghori ar y Cyd.

Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu:

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn gyfrifol am y swyddogaeth trosolwg a chraffu. Ni allant ymarfer swyddogaethau eraill a gwneud penderfyniadau.

Dirprwyo Swyddogion:

Mae dirprwyo swyddog hefyd yn cael eu cynnwys yn yr Adran hon o'r Cyfansoddiad.

14.1.5 Pwy sy'n penderfynu - Swyddogaethau Anweithredol?

Gall y Cyngor benderfynu a ddylid dirprwyo Swyddogaethau Anweithredol i bwyllgor, is-bwyllgor, swyddog dirprwyedig neu gydbwyllgor.

Pan fydd Swyddogaeth anweithredol wedi cael ei ddirprwyo i bwyllgor, caiff y pwyllgor ddirprwyo ymhellach i is-bwyllgor neu swyddog dirprwyedig.

Pan fydd Swyddogaeth anweithredol wedi cael ei ddirprwyo i is-bwyllgor, caiff yr is-bwyllgor ddirprwyo ymhellach i Swyddog dirprwyedig.

14.1.6 Pwy sy'n penderfynu - Swyddogaethau Anweithredol?

Caiff yr Arweinydd benderfynu a ddylid dirprwyo'r Swyddogaethau Gweithredol i bwyllgor o'r Cabinet, Aelod Cabinet unigol, Swyddog ddirprwyedig neu gydbwyllgor.

14.1.7 Cael gwared ar Ddirprwyaeth

Os bydd swyddogaeth wedi cael ei ddirprwyo, gall y corff a ddirprwyodd y swyddogaeth gael gwared ar y ddirprwyaeth yn gyffredinol neu mewn achos penodol, a gall arfer y swyddogaeth ei hun.

Os bydd swyddogaeth wedi cael ei ddirprwyo, nid yw'n ofynnol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i arfer y ddirprwyaeth a gall gyfeirio unrhyw fater penodol i'r corff a wnaeth y ddirprwyaeth neu unrhyw gorff arall sydd â phŵer i arfer y swyddogaeth.

14.1.8 Pwy all Arfer Dirprwyaethau Swyddogion?

Os bydd swyddogaeth wedi'i ddirprwyo i Swyddog(ion) ("swyddogion dirprwyedig"), gallant wneud penderfyniad yn enw (ond nid o reidrwydd yn bersonol gan) y cyfryw Swyddog(ion) dirprwyedig ("swyddog awdurdodedig") yn unol â threfniadau a wnaed o bryd i'w gilydd gan y Swyddogion dirprwyedig o'r fath at y diben hwn. Gall y Swyddog gyda phwerau dirprwyedig ond ddirprwyo i drydydd parti os rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Swyddog hwnnw i "ddirprwyo" gwneud penderfyniadau.

**ADRAN 14.2**

**Cyfrifoldeb Am Swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith**

1. "Swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith" yw holl Swyddogaethau'r Cyngor heblaw am:

a) y rhai y mae'r gyfraith yn eu nodi fel swyddogaethau'r Cyngor yn unig **(Tabl 1).**

b) Swyddogaethau a allai gael eu dyrannu i'r Cyngor yn hytrach nag i'r Pwyllgor Gwaith (Mae **Tabl 2** yn dangos sut fydd y swyddogaethau hynny yn cael eu rhannu rhwng y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith).

c) Swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Gwaith yn unig (**Tabl 3)**

2. **Tabl 4** yw cyfansoddiad Pwyllgorau'r Cyngor a sut mae'r swyddogaethau wedi eu dyrannu i'r Pwyllgorau hynny.

**Tabl 1 - Swyddogaethau'r Cyngor**

Rhestrir y swyddogaethau a neilltuir i'r Cyngor yn rhinwedd Atodlen 1 Rheoliadau Trefniadau'r Pwyllgor Gwaith Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007/399 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Trefniadau'r Pwyllgor Gwaith Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygiad) 2009/2983, Rheoliadau Awdurdod Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygiad) 2013/2438 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygiad Rhif 2) 2013/2902) yn y Tabl isod, ynghyd â'r corff / Swyddog y dyrennir hwy iddynt yn nhrydedd a phedwaredd colofn y tabl.

Mae'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Rhan 8 y Cyfansoddiad hwn) yn nodi a yw'r swyddogaeth wedi'i dirprwyo i Swyddog. Os nad yw wedi'i dirprwyo i Swyddog, y mae'r swyddogaeth wedi'i dirprwyo i Bwyllgor a restrir yn nhrydedd golofn y Tabl.

Mae'r Cyngor yn cadw'r cyfrifoldeb am y swyddogaeth er y gallai fod wedi'i ddirprwyo. Os rhestrir y Cyngor yn y golofn ar y dde, yna cyfrifoldeb unigol y Cyngor yw arfer y swyddogaeth.

Lle ceir ailddeddfiad statudol o unrhyw ddarpariaeth yna bydd y Cynllun Dirprwyo'n weithredol mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol wedi'i diwygio.

**A. Swyddogaethau'n ymwneud â Chynllunio Gwlad a Thref a Rheoli Datblygu:**

| Swyddogaeth | Deddf neu Offeryn Statudol a ddarperir | Wedi'i ddyrannu i'r | Dirprwywyd i |
|---|---|---|---|
| **1**. Awdurdod i benderfynu ynghylch ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio. | Adrannau 70 (1) (a) a (b) a 72 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **2**. Awdurdod i benderfynu ynghylch ceisiadau i ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau oedd eisoes ynghlwm â'r cais. | Adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3**. Awdurdod i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a wnaed eisoes | Adran 73A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **4**. Awdurdod i wrthod gwneud penderfyniad ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio | Adran 70A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **5**. Dyletswyddau'n gysylltiedig â phenderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. | Adrannau 69, 76 a 92 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Erthyglau 8,10 i 13, 15 i 22 a 25 a 26 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 (S.I. 1995/419) a chyfarwyddiadau a wneir o dan y ddeddf. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **6**. Awdurdod i benderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio a wnaed gan awdurdod lleol, yn unigol neu ar y cyd ag unigolyn arall. | Adran 316 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (S.I. 1992/1492) | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **7**. Awdurdod i wneud penderfyniadau, cymeradwyo a chytuno ar rai materion eraill yn gysylltiedig ag arfer hawliau datblygu a ganiateir. | Rhannau 6, 7, 11, 17, 19, 20, 21 i 24, 30 a 31 o Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Gyffredinol a Ganiateir) 1995 (S.I. 1995/418). | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **8**. Awdurdod i wneud ymrwymiadau cynllunio sy'n rheoleiddio datblygiad neu ddefnydd o dir. | Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **9**. Awdurdod i gyflwyno tystysgrif o ddefnydd neu ddatblygiad cyfreithlon presennol neu arfaethedig. | Adrannau 191(4) a 192(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **10**. Awdurdod i gyflwyno hysbysiad cwblhau. | Adran 94(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **11**. Awdurdod i roi caniatâd i arddangos hysbysebion. | Adran 220 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **12**. Awdurdod i awdurdodi mynediad i dir. | Adran 196A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **13**. Awdurdod i fynnu peidio â pharhau i ddefnyddio tir. | Adran 102 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Y Cyngor | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **14**. Awdurdod i gyflwyno hysbysiad tramgwyddo cynllunio, hysbysiad torri amod neu hysbysiad atal. | Adrannau 171C, 187A a 183(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **15**. Awdurdod i gyflwyno hysbysiad gorfodi. | Adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **16**. Awdurdod i wneud cais am waharddeb i atal torri rheolau<br>cynllunio. | Adran 187B Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **17**. Awdurdod i benderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd ar gyfer sylweddau peryglus, a phwerau cysylltiedig. | Adrannau 9(1) a 10 Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) Act 1990. | Pwyllgor Cynllunio | |
| **18**. Dyletswydd i benderfynu ynghylch amodau ynghlwm wrth hen ganiatâd ar gyfer mwyngloddio, caniatâd cynllunio perthnasol, yn ymwneud â safleoedd segur neu safleoedd gweithredol Rhan I neu II, neu ganiatâd ar gyfer mwynau yn ymwneud â safleoedd mwyngloddio, fel y bo'r achos. | Paragraff 2(6)(a) Atodlen 2 Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, paragraff 9(6) Atodlen 13 Deddf yr Amgylchedd1995 a pharagraff 6(5) Atodlen 14 y Ddeddf honno. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **19**. Awdurdod i fynnu cynnal tir yn briodol. | Adran 215(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **20.** Awdurdod i benderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd ar gyfer adeiladau rhestredig, a phwerau cysylltiedig. | Adran 16(1) a (2), 17, a 33(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **21**. Awdurdod i benderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd ar gyfer ardal gadwraeth. | Adran 16(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel y gweithredir o dan Adran 74(3) o'r Ddeddf honno. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **22.** Dyletswyddau'n gysylltiedig â cheisiadau am ganiatâd ar gyfer adeiladau rhestredig a chaniatâd ar gyfer ardal gadwraeth | Adrannau 13(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Rheoliadau 3 i 13 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a pharagraff 127 Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol; Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **23.** Awdurdod i gyflwyno hysbysiad cadwraeth adeilad, a phwerau cysylltiedig | Adrannau 3(1) a 4(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **24.** Awdurdod i gyflwyno hysbysiad gorfodaeth i adeilad rhestredig. | Adran 38 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **25.** Pwerau i gaffael adeilad rhestredig sydd angen ei atgyweirio ac i gyflwyno hysbysiad atgyweirio. | Adrannau 47 a 48 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pwyllgor Cynllunio ac yna ei gyfeirio at y Cabinet | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **26.** Awdurdod i wneud cais am waharddeb o ran adeilad rhestredig. | Adran 44A Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **27**. Awdurdod i wneud gwaith brys. | Adran 54 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **28**. Awdurdod yn gysylltiedig â gwaith mwyngloddio. | Atodlen 9 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **29**. Awdurdod yn gysylltiedig â llwybrau troed a llwybrau i geffylau. | Adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | |
| **30.** Awdurdod i ardystio datblygiad priodol arall yn ei le. | Adran 17 Deddf Iawndal Tir 1961. | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **31**. Dyletswyddau'n gysylltiedig â hysbysiadau prynu. | Adrannau 137 – 144 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **32.** Pwerau'n gysylltiedig â hysbysiadau malltod. | Adran 149 – 171 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pwyllgor Cynllunio | Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio |
| **33.** Pwerau i wneud cynrychioliadau ar ran y Cyngor ar faterion yn ymwneud â Phrosiectau Adeiladwaith Arwyddocaol Cenedlaethol a cheisiadau am 'ganiatâd datblygu' dan Ddeddf Cynllunio 2008. | Deddf Gynllunio 2008 | Pwyllgor Cynllunio | |

**B. Swyddogaethau Trwyddedu a Chofrestru (cyn belled ag nad yw wedi'i gynnwys gan unrhyw baragraff arall yn yr Atodlen hon):**

| **Swyddogaeth** | **Deddf neu Offeryn Statudol a ddarperir** | **Wedi'i ddyrannu i'r** | **Dirprwywyd i** |
|---|---|---|---|
| **1.** Awdurdod i gyflwyno trwyddedau sy'n awdurdodi defnyddio tir fel safle carafannau ("trwyddedau safle"). | Adran 3(3) Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **2.** Awdurdod i drwyddedu'r defnydd o anheddau symudol a safleoedd gwersylla. | Adran 269(1) Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **3.** Awdurdod i drwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. | (a) o ran cerbydau hacni, Deddf Cymalau Heddlu Trefol 1847 fel yr estynnwyd gan adran 171 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875, ac Adran 15 Deddf Trafnidiaeth 1985; ac adrannau 47, 57, 58, 60 a 79 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976;<br><br>(b) o ran cerbydau hurio preifat, adrannau 48, 57, 58, 60 a 79 of Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **4.** Awdurdod i drwyddedu gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. | Adrannau 51, 53, 54, 59, 61 a 79 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **5.** Awdurdod i drwyddedu gweithredwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. | Adrannau 55 i 58, 62 a 79 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.** Awdurdod i gofrestru hyrwyddwyr pŵls. | Atodlen 2 Deddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963. | Pwyllgor Trwyddedu Statudol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **7.** Awdurdod i roi trwyddedau betio ar y trac. | Atodlen 3 Deddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963. | Pwyllgor Trwyddedu Statudol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **8.** Awdurdod i drwyddedu cynlluniau betio rhyng-drac. | Atodlen 5ZA Deddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963. | Pwyllgor Trwyddedu Statudol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **9.** Awdurdod i roi caniatâd o ran eiddo â pheiriannau difyrion | Atodlen 9 Deddf Hapchwarae 1968. | Pwyllgor Trwyddedu Statudol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **10.** Awdurdod i gofrestru cymdeithasau sy'n dymuno hyrwyddo loterïau. | Atodlen 1 Deddf Loterïau a Difyrion 1976. | Pwyllgor Trwyddedu Statudol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **11.** Awdurdod i roi caniatâd o ran eiddo lle darperir difyrion â gwobrau. | Atodlen 3 Deddf Loterïau a Difyrion 1976. | Pwyllgor Trwyddedu Statudol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **12.** Awdurdod i gyflwyno trwyddedau adloniant. | Adran 12 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **13**. Awdurdod i drwyddedu siopau rhyw a sinemâu rhyw. | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol)1982, Adran 2 ac Atodlen 3. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **14**. Awdurdod i drwyddedu perfformiadau o hypnotiaeth. | Deddf Hypnotiaeth 1952. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **15**. Awdurdod i drwyddedu eiddo ar gyfer aciwbigo, tatŵio, tyllu clustiau ac electrolysis. | Adrannau 13 i 17 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol)1982. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **16.** Awdurdod i drwyddedu cychod pleser a badau pleser. | Adran 94 Deddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pen Swyddog Harbwr ac Arfor |
| **17.** Awdurdod i drwyddedu marchnadoedd a masnach ar y stryd. | Rhan III, ac Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **18**. Awdurdod i wneud neu ddiddymu gorchymyn sy'n dynodi ardal yn Barth Anrhefn Alcohol. | Adran 16 Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2016. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **19.** Awdurdod i drwyddedu delwyr mewn hela, a lladd a gwerthu helgig | Adrannau 5, 6, 17, 18 a 21 i 23 Deddf Hela 1831, Adrannau 2 i 16 Deddf Trwyddedu Hela 1860, Adran 4 Deddf Tollau a Chyllid Gwladol 1883, Adrannau 12(3) a 27 Deddf Llywodraeth Leol 1874, ac Adran 213 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **20**. Awdurdod i gofrestru a thrwyddedu eiddo ar gyfer paratoi bwyd. | Adran 19 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **21.** Awdurdod i drwyddedu iardiau sgrap. | Adran 1 Deddf Delwyr Metel Sgrap1964. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **22.** Awdurdod i gyflwyno, diwygio neu newid tystysgrifau diogelwch (rhai cyffredinol neu arbennig) ar gyfer meysydd chwaraeon. | Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **23**. Awdurdod i gyflwyno, canslo, diwygio neu amnewid tystysgrifau ar gyfer stondinau wedi'u rheoleiddio ar diroedd chwaraeon. | Rhan III Deddf Diogelwch Tân a Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1987. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **24**. Awdurdod i drwyddedu eiddo ar gyfer bridio cŵn. | Adran 1 Deddf Bridio Cŵn 1973 ac Adran 1 Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **25.** Awdurdod i drwyddedu siopau anifeiliaid anwes a sefydliadau eraill lle caiff anifeiliaid eu bridio neu eu cadw i bwrpas cynnal busnes. | Adran 1 Deddf Anifeiliaid Anwes 1951, Adran 1 Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963 , Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970, adran 1 Deddf Bridio Cŵn 1973, ac adrannau 1 a 8 Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **26.** Awdurdod i gofrestru hyfforddwyr anifeiliaid ac arddangoswyr. | Adran 1 Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoliad) 1925. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **27.** Awdurdod i drwyddedu sŵau. | Adran 1 Deddf Trwyddedu Sw 1981. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **28.** Awdurdod i orfodi trwyddedu anifeiliaid gwyllt peryglus. | Adran 1 Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **29.** Awdurdod i orfodi rheoliadau o safbwynt sgil-gynnyrch anifeiliaid. | Rheoliad 49 Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **30.** Awdurdod i drwyddedu cyflogaeth plant. | Rhan II Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933, is-ddeddfau a wnaed o dan y Rhan honno, a Rhan II Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963. | | Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg |
| **31.**Awdurdod i wella eiddo ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil. | Adran 46A Deddf Priodasau 1949, Adran 6A Deddf Partneriaethau Sifil 2004, a Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Eiddo a gymeradwywyd) 2005 (S.I. 2005/3168). | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu |
| **32.** Awdurdod i gofrestru tir comin neu griniau tref neu bentref, ac eithrio lle arferir yr awdurdod yn unig i bwrpas: - a) cyfnewid tiroedd a effeithiwyd gan | Rheoliad 6 Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Tir Newydd) 1969 (S.I. 1969/1843). | Pwyllgor Cynllunio | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| orchymyn o dan adran 19(3), neu baragraff 6(4) Atodlen 3 i, Ddeddf Caffael Tir 1981 neu; - b) orchymyn o dan adran 147 Deddf Cau Tir 1845 | | | |
| **33.** Awdurdod i gofrestru amrywio hawliau tir comin. | Rheoliad 29 Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol)1966 (S.I. 1966/1471. | Pwyllgor Cynllunio | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **34.** Rhoi hawl i gynnal casgliadau elusennol. | Adran 68 Deddf Elusennau 1992. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **35.** Awdurdod i roi caniatâd i weithredu uchelseinydd. | Atodlen 2 Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **36.** Awdurdod i roi trwydded am waith stryd. | Adran 50 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd1991. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **37.** Dyletswydd i gofrestru symud moch | Rheoliadau 21(3) a (4) Gorchymyn Symud Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud (Cymru) 2004 (SI 2004/996) | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **38.** Awdurdod i orfodi rheoliadau o ran symud moch. | Rheoliadau 27(1) Gorchymyn Symud Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud (Cymru) 2004 (SI 2004/996) | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **39.** Awdurdod i gyflwyno trwydded i symud gwartheg o farchnad. | Erthygl 5(2) Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998 (S.I. 1998\871). | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **40.** Dyletswydd i orfodi a gweithredu Rheoliadau (CE) Rhif 852/2004 a 853/2004 o ran gweithredwyr busnesau bwyd fel y manylir ymhellach yn Rheoliad 5 Rheoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006. | Rheoliad 5 Rheoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **41.** Swyddogaethau o ran sefydlu Pwyllgor Trwyddedu. | Adran 6 Deddf Trwyddedu 2003. | Cyngor | |
| **42.** Awdurdod i dderbyn rhybudd cyn newid enw stryd | Adran 17 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **43.** Awdurdod i orchymyn bod stryd yn cael ei dynodi/diwygio | Adran 18 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| **44.** Dyletswydd i nodi enw stryd | Adran 19 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

**C. Swyddogaethau'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle:**

| **Swyddogaeth** | **Deddf neu Offeryn Statudol a ddarperir** | **Wedi'i ddyrannu i'r** | **Dirprwywyd i'r** |
|---|---|---|---|
| Swyddogaethau o dan unrhyw un o'r "darpariaethau statudol perthnasol" o fewn diffiniad Rhan 1 (iechyd, diogelwch a lles yn gysylltiedig â gwaith, a rheoli sylweddau peryglus) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati 1974, i'r graddau y cyflawnir y swyddogaethau hynny fel arall yn hytrach nag o fewn rôl yr awdurdod fel cyflogwr | Rhan I Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati 1974. | | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

**D. Swyddogaethau'n ymwneud ag Etholiadau:**

| **Swyddogaeth** | **Deddf neu Offeryn Statudol a ddarperir** | **Wedi'i ddyrannu i'r** | **Dirprwywyd i'r** |
|---|---|---|---|
| **1.** Dyletswydd i benodi swyddog cofrestru etholiadol. | Adran 8(2)(A) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | Cyngor | |
| **2.** Awdurdod i bennu swyddogion o ran gofynion y swyddog cofrestru. | Adran 52 (4) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | | Prif Weithredwr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.** Awdurdod i ddiddymu cynghorau cymuned. | Adran 27D Deddf Llywodraeth Leol 1972 | Cyngor | |
| **4.** Awdurdod i wneud gorchmynion i grwpio cymunedau. | Adran 27F neu 27H Deddf Llywodraeth Leol 1972 | Cyngor | |
| **5.** Awdurdod i wneud gorchmynion i ddiddymu grwpiau a gwahanu cynghorau cymuned oddi wrth grwpiau. | Adran 27 Deddf Llywodraeth Leol 1972 | Cyngor | |
| **6.** Dyletswydd i benodi swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol | Adran 35 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | Cyngor | |
| **7.** Dyletswydd i ddarparu cymorth mewn etholiadau Seneddol Ewropeaidd. | Adran 6 (7) an(8) Deddf Etholiadau Seneddol Ewropeaidd 2002 | | Prif Weithredwr |
| **8.** Dyletswydd i rannu etholaeth yn ardaloedd pleidleisio | Adran 18 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | Cyngor | |
| **9.** Awdurdod i rannu etholaethau yn etholaethau pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. | Adran 31 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | Cyngor | |
| **10.** Pwerau o ran cynnal etholiadau. | Adran 39 (4) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | Cyngor | |
| **11.** Awdurdod i dalu treuliau a wariwyd yn briodol gan swyddogion cofrestru etholiadol. | Adran 54 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | | Swyddog Canlyniadau |
| **12.** Awdurdod i lenwi swyddi gwag os bydd enwebiadau annigonol. | Adran 21 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 | | Prif Weithredwr |
| **13.** Dyletswydd i ddatgan swyddi gwag mewn rhai achosion. | Adran 86 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | | Swyddog Canlyniadau |
| **14.** Dyletswydd i hysbysu'n gyhoeddus swyddi gwag dros dro. | Adran 87 Deddf Llywodraeth Leol 1972 | | Swyddog Canlyniadau |
| **15.** Awdurdod i wneud penodiadau dros dro i gynghorau cymuned. | Adran 91 Deddf Llywodraeth Leol 1972 | | Swyddog Canlyniadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **16.** Awdurdod i benderfynu ynghylch ffioedd ac amodau am gyflenwi copïau, neu rannau o ddogfennau etholiadol. | Rheol 48 (3) Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd)1986 (S.I 1986/2214) a rheol 48 (3) Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) 1986 (S.I 1986/2215). | | Swyddog Canlyniadau |
| **17.** Awdurdod i gyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol am orchymyn o dan Adran 10 (cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. | Adran 10 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. | | Swyddog Canlyniadau |

**E. Swyddogaethau'n ymwneud ag Enw a Statws Ardal neu Unigolion:**

| Swyddogaeth | Deddf neu Offeryn Statudol a ddarperir | Wedi'i ddyrannu i'r | Dirprwywyd i'r |
|---|---|---|---|
| **1.** Awdurdod i newid enw sir, neu fwrdeistref sirol. | Adran 74 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | Cyngor | |
| **2.** Awdurdod i newid enw cymuned. | Adran 76 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | Cyngor | |
| **3.** Awdurdod i gyflwyno teitl henadur anrhydeddus neu dderbyn rhywun yn rhyddfreiniwr anrhydeddus. | Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | Cyngor | |
| **4.** Awdurdod i gyflwyno deiseb am siarter i roi statws bwrdeistref sirol. | Adran 245A Deddf Llywodraeth Leol 1972. | Cyngor | |

**F. Awdurdod i Wneud, Diwygio, Diddymu neu Gyflwyno Is-ddeddfau:**

| Swyddogaeth | Deddf neu Offeryn Statudol a ddarperir | Wedi'i ddyrannu i'r | Dirprwywyd i'r |
|---|---|---|---|
| **Awdurdod i wneud, diwygio, diddymu neu gyflwyno is-ddeddfau** | Unrhyw ddarpariaeth o unrhyw ddeddfiad (yn cynnwys Deddf leol), pryd bynnag y pasiwyd hi, ac Adran 14 Deddf Ddehongli 1978. | Cyngor | |

## G. Awdurdod i Hyrwyddo neu Wrthwynebu Mesurau Lleol neu Bersonol:

| Swyddogaeth | Deddf neu Offeryn Statudol a ddarperir | Wedi'i ddyrannu i'r | Dirprwywyd i'r |
|---|---|---|---|
| **Awdurdod i hyrwyddo neu wrthwynebu mesurau preifat** | Adrannau 52 a 53 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. | Cyngor | |

## H. Swyddogaethau'n ymwneud â Phensiynau ac ati:

| Swyddogaeth | Deddf neu Offeryn Statudol a ddarperir | Wedi'i ddyrannu i'r | Dirprwywyd i'r |
|---|---|---|---|
| **1.** Swyddogaethau'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol ac ati | Rheoliadau o dan adran 7, 12 neu 24 Deddf Blwydd-dal 1972. | Cyngor | |
| **2.** Swyddogaethau'n ymwneud â phensiynau a rhoddion. | Rheoliadau o dan adran 18 (3A) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. | Cyngor | |
| **3.** Swyddogaethau o dan gynlluniau pensiwn presennol o ran pobl a gyflogir gan yr awdurdodau tân ac achub yn unol ag adran 1 Deddf Gwasanaethau Tan ac Achub 2004 | Adrannau 34 a 36 Deddf Gwasanaethau Tan ac Achub 2004. | Cyngor | |

## I. Swyddogaethau Amrywiol:

| Swyddogaeth | Deddf neu Offeryn Statudol a ddarperir | Wedi'i ddyrannu i'r | Dirprwywyd i'r |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.** Awdurdod i greu llwybrau troed a llwybrau i geffylau | Adrannau 25 a 26 Deddf Priffyrdd 1980 | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Heb wrthwynebiad – Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau |
| **2.** Awdurdod i atal llwybrau troed a llwybrau i geffylau | Adran 118 Deddf Priffyrdd 1980 | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Heb wrthwynebiad - Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau |
| **3.** Awdurdod i wyro llwybrau troed a llwybrau i geffylau | Adran 119 Deddf Priffyrdd 1980 | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Heb wrthwynebiad - Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau |
| **4.** Awdurdod i orfodi a diogelu hawl y cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau’r briffordd | Adran 130 Deddf Priffyrdd 1980 | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Heb wrthwynebiad - Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau |
| **5.** Dyletswydd i ailddosbarthu ffyrdd sy’n cael eu defnyddio fel llwybrau cyhoeddus | Adran 54 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau |
| **6.** Dyletswydd i gymeradwyo datganiad cyfrifon, incwm a gwariant a mantolen, a chofnod o dderbynebion a thaliadau'r awdurdod (beth bynnag fo’r achos). | Rheoliadau a wnaed o dan Adran 39 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (P.23) | Pwyllgor Llywodraethu a Archwilio | |
| **7.** Pwerau’n ymwneud â chadw coed. | Adrannau 197 i 214D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Coed 1999 (S.I 1999/1892). | Pwyllgor Cynllunio | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **8**. Pwerau'n ymwneud â diogelu gwrychoedd pwysig (Cefn Gwlad). | Rheoliadau Gwrychoedd 1997 (S.I 1997 / 1160) | Pwyllgor Cynllunio | Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau |
| **9.** Pwerau i wneud rheolau sefydlog | Adran 106, a pharagraff 42 Atodlen 12, Deddf Llywodraeth Leol 1972. | Y Cyngor | |
| **10.** Penodi staff a phenderfynu ar y telerau ac amodau ar gyfer eu swydd (gan gynnwys trefnau ar gyfer eu diswyddo) | Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adrannau 7 ac 8 Deddf Lywodraeth Leol a Thai 1989. | Y Cyngor | Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr Strategol / Penaethiaid Gwasanaeth |
| **11.** Awdurdod i wneud rheolau sefydlog o ran contractau. | Adran 135 Deddf Lywodraeth Leol 1972. | Y Cyngor | |
| **12.** Awdurdod i ystyried adroddiadau anffafriol gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Adran 19 Deddf Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) Act 2005 | Y Cyngor | |
| **13.** Pwerau i wneud gorchymyn i nodi lle fel man cyhoeddus dynodedig i bwrpas pwerau'r heddlu o safbwynt yfed alcohol. | Adran 13 (2) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001. | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | |
| **14**.Swyddogaethau yn ymwneud ag absenoldeb teulu ar gyfer Aelodau Awdurdod Lleol | Rheoliadau Absenoldeb Teulu ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol 2016 | Y Cyngor | |
| **15**. Pwerau o ran cofrestru gweithredwyr achub cerbydau modur. | Rhan 1 Deddf Cerbydau (Trosedd) 2001 | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai |
| **16.** Awdurdod i benodi Swyddogion i bwrpas arbennig (penodi ('Swyddogion priodol'). | Adran 270(3) Deddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **17.** Dyletswydd i bennu terfyn benthycaffforddiadwy. | Adran 3 Deddf Lywodraeth Leol 2003 | Y Cyngor | |
| **18.** Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi flynyddol yn unol â chanllawiau. | Adran 15 Deddf Lywodraeth Leol 2003 | Y Cyngor | |
| **19.** Dyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol. | Adran 151 Deddf Lywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor | Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Adnoddau |

Drwy rinwedd Trefniadau Pwyllgor Gwaith Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) 2007:

1. Nid yw'r swyddogaethau:

   (a) gorfodi unrhyw amod, cyfyngiad neu waharddiad arall ar gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, hawl neu gofrestru a roddwyd

   (i) wrth arfer swyddogaeth a restrir yn y Tabl uchod; neu
   (ii) fel arall yn hytrach na gan y Pwyllgor Gwaith wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan Ddeddf leol; neu

   (b) benderfynu unrhyw delerau eraill y mae unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, hawl neu gofrestru o'r fath yn amodol arnynt,

   yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Gwaith [Rheoliad 3 (2)]

2. Nid yw'r swyddogaethau o benderfynu prun ai, ac ym mha fodd, i orfodi –
   (a) unrhyw fethiant i gydymffurfio â chymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, hawl neu gofrestru a roddwyd wrth arfer swyddogaeth a nodir yn y Tabl uchod;
   (b) unrhyw fethiant i gydymffurfio ag amod; cyfyngiad neu delerau y mae unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, hawl neu gofrestru o'r fath yn amodol arnynt; neu
   (c) unrhyw dramgwyddo arall o safbwynt mater yn ymwneud â'r swyddogaeth o benderfynu ar gais ar gyfer cymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, hawl neu gofrestru na fyddai'n gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith, yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Gwaith [Rheoliad 3 (3)]

3. Nid yw'r Swyddogaeth:
   (a) o ddiwygio, addasu neu amrywio unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, hawl neu gofrestru o'r fath o roddwyd neu unrhyw amod, cyfyngiad, gwaharddiad neu delerau fel y sonnir ym mharagraff 1 uchod y mae'n amodol arno, neu

(b) diddymu unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, hawl neu gofrestru,

yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith [Rheoliad 3 (4)]

4. Nid yw'r swyddogaeth o wneud unrhyw gynllun awdurdodedig neu'n ofynnol gan reoliadau o dan Adran 18 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (cynlluniau ar gyfer lwfansau sylfaenol, presenoldeb a chyfrifoldeb arbennig ar gyfer cael cynllun yn lle cynllun o'r fath, yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith [Rheoliad 3 (5)]. Ni all y swyddogaeth hon gael ei dirprwyo gan y Cyngor.

5. Nid yw'r swyddogaethau o benderfynu:

(a) swm y lwfans sy'n daladwy o dan
   (i) Adran 22 (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") (treuliau'r Cadeirydd);
   (i) Adran 24 (4) Deddf 1972 (treuliau'r Is gadeirydd);
   (ii) Adran 173 (4) Deddf 1972 (lwfans colled ariannol);
   (iii) Adran 175 Deddf 1972 (lwfansau am fynychu cynadleddau);

(b) y cyfraddau ar gyfer gwneud taliadau o dan Adran 174 Deddf 1972 (lwfans teithio a chynhaliaeth);
(c) swm unrhyw lwfans sy'n daladwy yn unol â chynllun o dan Adran 18 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu reoliadau a wnaed o dan Adran 100 Deddf Llywodraeth Leol 2000, neu'r cyfraddau ar gyfer gwneud taliadau am lwfansau o'r fath;
(d) a ddylid codi tâl am unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, hawl neu gofrestru mater nad yw'n gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith; a
(e) lle codir tâl am unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, hawl neu gofrestru, swm y tâl;

yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith [Rheoliad 3 (6)].

Ni ellir dirprwyo swyddogaethau (a) i (c) uchod gan y Cyngor.

6. Yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau rheoliadau o dan Adran 20 (arfer Swyddogaethau) Deddf Llywodraeth Leol 2000, nid yw'r swyddogaeth gwneud trefniadau i gyflawni swyddogaethau gan bwyllgor neu swyddog dan Adran 101 (5) Deddf 1972 yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith [Rheoliad 3 (7)].

7. Nid yw'r swyddogaeth gwneud penodiadau dan Adran 102 (penodi pwyllgorau) Deddf 1972 Act yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith.
[Rheoliad 3 (8)] - gweler Tabl 4

**ADRAN 14.3**

**Tabl 2: Swyddogaethau Dewis Lleol**

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau'r Pwyllgor Gwaith) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol Trefniadau'r Pwyllgor Gwaith (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygiad) 2009 yn caniatáu i Gyngor benderfynu a ddylai unrhyw un o'r swyddogaethau canlynol fod yn Swyddogaethau i'r Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor.

Mae'r tabl isod yn nodi a yw Swyddogaeth yn berthnasol i'r Pwyllgor Gwaith neu'r cyngor ac a yw'r Swyddogaeth honno yn cael ei dirprwyo i Swyddog ai peidio.

| Swyddogaeth | Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor | Dirprwywyd i |
|---|---|---|
| 1. Unrhyw swyddogaeth o dan Ddeddf Leol heblaw am swyddogaeth a nodir neu y cyfeirir ati yn Nhabl 1. | Pwyllgor Gwaith | Prif Swyddog Perthnasol |
| 2. Penderfynu ar apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaed gan yr awdurdod, neu ar ei ran. | Pwyllgor Gwaith | Pwyllgor Perthnasol |
| 3. Swyddogaethau adolygu penderfyniadau a wnaed ynglŷn â hawliadau budd-dal tai neu fudd-dal Treth y Cyngor ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau o'r fath, dan Adran 68 ac Atodlen 7 Deddf Cynnal Plant, Pensiynau a Nawdd Cymdeithasol 2000. | Pwyllgor Gwaith | Cabinet |
| 4. Gwneud trefniadau o ran apeliadau yn erbyn gwahardd plant mewn ysgolion a gynhelir o dan Adran 52 Deddf Addysg 2002. | Pwyllgor Gwaith | Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg |
| 5. Gwneud trefniadau'n unol ag adran 94(1). (IN a (4), ac Atodlen 24, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (apeliadau mynediad). | Pwyllgor Gwaith | Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg |

| Swyddogaeth | | Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor | Dirprwywyd i |
|---|---|---|---|
| 6. | Gwneud trefniadau'n unol ag adran 95(2), ac Atodlen, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (plant y mae adran 87 yn berthnasol iddi: apeliadau gan gyrff llywodraethu). | Pwyllgor Gwaith | Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg |
| 7. | Cynnal adolygiadau gwerth gorau o dan Adran 5 (adolygiadau gwerth gorau) yn unol â darpariaethau unrhyw orchymyn sydd mewn grym ar y pryd | Pwyllgor Gwaith (yn amodol ar ystyriaeth flaenorol gan y Pwyllgor Craffu perthnasol) | Cabinet |
| 8. | Unrhyw swyddogaeth yn ymwneud â thir halogedig | Pwyllgor Gwaith | Cabinet |
| 9. | Cyflawni unrhyw swyddogaeth yn ymwneud â rheoli llygredd neu reoli ansawdd aer. | Pwyllgor Gwaith | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| 10. | Cyflwyno hysbysiad atal o ran niwsans statudol. | Pwyllgor Gwaith | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| 11. | Gwneud penderfyniad y dylai Atodlen 2 Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 fod yn berthnasol yn ardal yr awdurdod. | Pwyllgor Gwaith | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| 12. | Archwilio ardal yr awdurdod i ganfod unrhyw niwsans sŵn. | Pwyllgor Gwaith | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| 13. | Ymchwilio i unrhyw gwyn ynghylch bodolaeth niwsans sŵn. | Pwyllgor Gwaith | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| 14. | Cael gwybodaeth o dan adran 330 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 o ran diddordebau mewn tir. | Pwyllgor Gwaith | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

| Swyddogaeth | Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor | Dirprwywyd i |
|---|---|---|
| 15. Cael gwybodaeth am bobl â diddordeb mewn tir o dan Adran 16 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 | Pwyllgor Gwaith | Prif Swyddog Perthnasol |
| 16. Unrhyw un o'r swyddogaethau canlynol Mewn perthynas â phriffyrdd —<br><br>(a) gwneud trefniadau i wneud gwaith ar y briffordd<br><br>(b) y swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys yn narpariaethau canlynol Rhan VIII Deddf Priffyrdd 1980 (atal a gosod gwyriad ar y briffordd etc)<br><br>(i) adran 117 — gwneud cais am orchymyn dan adran 116 ar ran unigolyn arall;<br><br>(ii) adran 118 — atal llwybrau troed, llwybrau i geffylau a chilffyrdd cyfyngedig;<br><br>(iii) adran 118ZA — gwneud cais am orchymyn i ddileu llwybr cyhoeddus;<br><br>(iv) adran 118A — atal llwybrau troed, llwybrau i geffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd;<br><br>(v) adran 118B — atal priffyrdd penodol i bwrpasau atal troseddau ayb;<br><br>(vi) adran 118C — cais gan berchennog ysgol am orchymyn dileu arbennig;<br><br>(vii) adran 119ZA — cais am orchymyn gwyro llwybr cyhoeddus; | Pwyllgor Gwaith | Pennaeth Gwasanaethau Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau<br><br>/ Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

| Swyddogaeth | Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor | Dirprwywyd i |
|---|---|---|
| (viii) adran 119A — gwyro llwybrau troed, llwybrau i geffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd;<br><br>(ix) adran 119B — gwyro priffyrdd penodol i bwrpasau atal troseddau ayb;<br><br>(x) adran 119C — cais gan berchennog ysgol am orchymyn gwyro arbennig;<br><br>(xi) adran 119D — gwyro priffyrdd penodol i ddiogelu safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig;<br><br>(xii) adran 120 — defnyddio pwerau gwneud gorchmynion dileu a gwyro llwybrau cyhoeddus;<br><br>(xiii) adran 121B — cofrestr ceisiadau;<br><br>(c) y swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys yn narpariaethau canlynol Rhan IX Deddf Priffyrdd 1980 (ymyrraeth gyfreithlon ac anghyfreithlon gyda phriffyrdd a strydoedd)-<br><br>(i) adran 139 — rheoli sgipiau adeiladwyr;<br><br>(ii) adran 140 — symud sgipiau adeiladwyr;<br><br>(iii) adran 140A — sgipiau adeiladwyr: ffioedd ar gyfer meddiannu'r briffordd;<br><br>(iv) adran 142 — trwydded i blannu coed, llwyni ayb ar briffordd;<br><br>(v) adran 147 — pŵer i awdurdodi adeiladu camfeydd ar lwybr troed neu lwybr i geffylau; | | |

| Swyddogaeth | Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor | Dirprwywyd i |
|---|---|---|
| (vi) adran 147ZA — cytundebau mewn perthynas â gwelliannau er lles unigolion gyda phroblemau symudedd;<br><br>(vii) adran 149 — symud pethau a osodwyd ar y briffordd ac sy'n niwsans ayb;<br><br>(viii) adran 169 — rheoli sgaffaldau ar y briffordd;<br><br>(ix) adran 171 — rheoli gadael deunydd adeiladu a chloddio tyllau yn y stryd;<br><br>(x) adran 171A a rheoliadau dan yr adran honno — gwaith dan a169 neu a171: ffioedd ar gyfer meddiannu'r briffordd;<br><br>(xi) adran 172 — palisau i'w gosod yn ystod gwaith adeiladu ayb;<br><br>(xii) adran 173 — palisau i'w gosod yn ddiogel;<br><br>(xiii) adran 178 — cyfyngu ar osod rheiliau, trawstiau ayb dros y briffordd;<br><br>(xiv) adran 179 — rheoli adeiladu selerau ayb dan y stryd;<br><br>(xv) adran 180 — rheoli agoriadau i selerau ayb dan y stryd, a goleuadau palmant ac awyrydd;<br><br>(d) defnyddio swyddogaethau dan adran 34 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (gorchmynion palmentydd calchfaen); a<br><br>(e) defnyddio swyddogaethau dan adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (dyletswydd i adolygu'r | | |

| **Swyddogaeth** | **Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor** | **Dirprwywyd i** |
|---|---|---|
| map swyddogol a'r datganiad swyddogol yn barhaus). | | |
| 19. Penodi unrhyw unigolyn -<br><br>9. (a) i unrhyw swydd heblaw am swydd lle cyflogir ef gan yr awdurdod;<br>10. (b) i unrhyw gorff heblaw am -<br>(i) yr awdurdod;<br>(ii) cydbwyllgor o ddau awdurdod neu fwy; neu<br>(c) i unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor corff o'r fath, a diddymu unrhyw benodiad o'r fath. | Pwyllgor Gwaith | Deilydd Portffolio |
| 20. Awdurdod i wneud taliadau neu ddarparu unrhyw fuddion eraill mewn achosion o gamweinyddu ac ati. | Cyngor | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd/ Prif Weithredwr a'r Deilydd Portffolio perthnasol |
| 21. Cyflawni unrhyw swyddogaeth gan awdurdod sy'n gweithredu fel awdurdod harbwr. | Pwyllgor Gwaith | Cabinet |
| 22. Swyddogaethau o safbwynt cyfrifo sylfaen Treth y Cyngor yn unol ag unrhyw un o'r canlynol:<br><br>(a) penderfynu ar eitem ar gyfer T yn Adran 33 (1) a 44 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;<br><br>(b) penderfynu ar swm ar gyfer eitem TP yn adrannau 34 (3), 45 (3) 48 (3) a 48 (4) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;<br>(c) penderfynu ar swm sydd ei angen ar gyfer penderfynu ar swm yr eitem a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b) uchod. | Pwyllgor Gwaith | Deilydd Portffolio Cyllid ac Adnoddau |
| 23. Swyddogaethau trwyddedu yn unol â Rhan 2 Deddf Trwyddedu 2003 heblaw am adran 6 a'r Datganiad Polisi Trwyddedu. | | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

| Swyddogaeth | Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor | Dirprwywyd i |
|---|---|---|
| 24. Swyddogaethau o ran gamblo yn unol â darpariaethau canlynol Deddf Gamblo 2005<br>(a) adran 29 — gwybodaeth yr awdurdod trwyddedu;<br>(b) adran 30 — cyfnewid gwybodaeth arall;<br>(c) adran 166 — penderfyniad i beidio rhoi trwyddedau casino;<br>(d) adran 212 a rheoliadau a wnaed dan yr adran honno — ffioedd;<br>(e) adran 284 — dileu'r eithriad;<br>(f) adran 304 - unigolion wedi'u hawdurdodi;<br>(g) adran 346 — erlyniadau gan awdurdod trwyddedu;<br>(h) adran 349 — polisi trwyddedu tair blynedd;<br>(i) adran 350 — cyfnewid gwybodaeth;<br>(j) Rhan 5 of Atodlen 11 — cofrestru gydag awdurdod lleol. | Cyngor | Pwyllgor Trwyddedu Statudol/ Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |
| 25. Swyddogaethau o ran cymeradwyo gan awdurdod lleol o dan adran 51 neu benderfyniad gan awdurdod lleol o dan adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. | Pwyllgor Gwaith | |
| 26. Swyddogaethau o ran datblygu polisïau personél yr Awdurdod | Pwyllgor Gwaith | |
| 27. Newidiadau trefn sy'n effeithio ar 11 neu fwy o staff neu swyddi | Pwyllgor Gwaith | |
| 28. Adrannau 92 a 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (gwneud trefniadau ar gyfer asesiad perfformiad panel ac ymateb i adroddiad y panel) | Pwyllgor Gwaith | Cabinet |

**ADRAN 14.4**

**Tabl 3 - Swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Gwaith yn unig**

| Swyddogaeth | Corff Ffurfio | Swyddogaeth y Cyngor |
|---|---|---|
| **1. Llunio a chymeradwyo'r cynlluniau a'r strategaethau a gweithredu amcanion Cynllun Corfforaethol y Cyngor gan gynnwys:**<br>- Cynllun Rhianta Corfforaethol<br>- Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych<br>- Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel<br>-<br>- Strategaeth Iechyd a Lles (Adran 24 Deddf Diwygio Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (c.17))<br>- Cynllun Cludiant Rhanbarthol<br>- Cynlluniau ac addasiadau sydd gyda'i gilydd yn llunio'r Cynllun Datblygu (Adran 10A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (c.8))<br>- Cynllun Iaith Gymraeg (Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (c.38))<br>- Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid (Adran 40 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 (c.37))<br>- Y Strategaeth Comisiynu Lleoliadau | Y Pwyllgor Gwaith | Ystyried, a lle bo angen, diwygio neu gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Gwaith, cyn eu cymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor |

| | | |
|---|---|---|
| - Strategaeth Tai (Adran 87 Deddf Llywodraeth Leol 2003 (c.26))<br><br>- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (Adran 60 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000)<br><br>**2. Llunio cynllun, trefniant neu strategaeth ar gyfer rheoli benthyciadau'r awdurdod neu ei wariant cyfalaf.** | Y Pwyllgor Gwaith | Ystyried, a lle bo angen, diwygio neu gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Gwaith, cyn eu cymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor |

Nid cyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith yw'r swyddogaethau canlynol:

1. Awdurdodi gwneud cais am drosglwyddo stoc, yn benodol Adran 135 (5) Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (rhaglenni gwaredu) neu Adran 32 (Awdurdod i waredu tir a gedwir i bwrpas Rhan II neu Adran 43 (caniatâd ei angen ar gyfer rhai achosion o waredu sydd heb fod o fewn Adran 32) Deddf Tai 1985.
2. Pennu Cyllideb y Cyngor - Yn benodol cyfrifo yn unol ag unrhyw Adrannau 32 i 37, 43 i 51, 52 I, 52 J, 52 T a 52 U Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, boed yn wreiddiol neu fel arall; neu gyflwyno praesept o dan Bennod IV Rhan I o Ran I y Ddeddf honno.

**Tabl 4 - Amgylchiadau lle nad yw Swyddogaethau yn gyfrifoldeb ar Bwyllgor Gwaith yr Awdurdod**

<table>
<tr><th>Swyddogaeth:</th><th>Amgylchiadau:</th></tr>
<tr><td>1. Mabwysiadu neu gymeradwyo cynllun neu strategaeth (statudol neu anstatudol), ac eithrio cynllun neu strategaeth ar gyfer rheoli benthyca neu wariant cyfalaf yr Awdurdod neu y cyfeiriwyd ato yn Atodlen 3.</td><td>Mae’r Awdurdod yn penderfynu y dylai’r penderfyniad i fabwysiadu neu gymeradwyo’r cynllun neu strategaeth gael ei gymryd ganddyn nhw.</td></tr>
<tr><td>2. Penderfynu ar unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth, sydd -<br><br>(a) Yn gyfrifoldeb ar y Pwyllgor Gwaith; ac<br>(b) Yn ymwneud â chyllideb yr Awdurdod, neu eu benthyca neu wariant cyfalaf.</td><td>Bod yr unigolyn neu gorff, yn rhinwedd unrhyw un o adrannau 14 i 17 Deddf Llywodraeth Leol 2000 neu ddarpariaeth a wnaed dan adran 18 neu 20 y ddeddf, fydd yn gwneud y penderfyniad –<br><br>(a) O blaid penderfynu yn groes i, neu ddim yn gyfan gwbl yn unol â –<br><br>(i) chyllideb yr awdurdod; neu<br>(ii) y cynllun neu strategaeth am y tro wedi’i gymeradwyo neu ei fabwysiadu gan yr Awdurdod mewn perthynas â’u benthyca neu wariant cyfalaf; a<br><br>(b) ddim wedi’i awdurdodi gan drefniadau gweithredol, rheoliadau ariannol, archebion sefydlog neu reolau neu weithdrefnau eraill yr Awdurdod i wneud penderfyniadau.</td></tr>
<tr><td>3. Penderfynu ar unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth -<br><br>(a) Sy’n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor Gwaith; a<br>(b) Y mae cynllun neu strategaeth wedi’i fabwysiadu neu ei gymeradwyo gan yr awdurdod mewn perthynas ag o (yn statudol neu’n anstatudol).</td><td>Bod yr unigolyn neu gorff, yn rhinwedd unrhyw un o adrannau 14 i 17 Deddf Llywodraeth Leol 2000 neu ddarpariaeth a wnaed dan adran 18 neu 20 y ddeddf, fydd yn gwneud y penderfyniad o blaid gwneud penderfyniad ynglŷn â’r mater yn groes i’r cynllun neu, ar y strategaeth a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod.</td></tr>
</table>

**ADRAN 14.5**

**Cynllun Dirprwyo Cynllunio**

Mae swyddogaethau cynllunio yn cael eu dirprwyo i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai gan y Cyngor (nid y Gweithgor). Daw o dan Ran 14 o'r Cyfansoddiad ym mharagraff 4.4.18 (1) o'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion, ac o dan Ran 3 Cyfrifoldeb am Swyddogaeth yn Nhabl 1 (rhan A) Swyddogaethau sy'n ymwneud â Chynllunio Gwlad a Thref a Rheoli Datblygu.

1. Mae’r swyddogaethau a nodwyd yn y darpariaethau uchod wedi eu dirprwyo i’r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddioi (sy’n gyfrifol am y tro am swyddogaethau Rheoli Datblygu’r Cyngor) a byddant yn cael eu gwneud ganddo neu unrhyw swyddog arall a awdurdodir ganddo/ganddi OND yn amodol ar neilltuo’r materion canlynol i’r Pwyllgor Cynllunio:

1.1 Ceisiadau cynllunio amlinellol a llawn ar gyfer datblygiadau mawr (fel y diffinnir ym mharagraff 2 isod) ac na ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Cynllunio.

1.2 Os bu gwrthwynebiad i gais sy’n perthyn i un neu fwy o’r categorïau canlynol lle codwyd materion (ym marn y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio sy’n gyfrifol am reoli datblygu neu ei swyddog enwebedig) sydd o’r fath bwysigrwydd fel bod angen i’r Pwyllgor benderfynu yn eu cylch a lle mai argymhelliad y swyddog yw rhoi caniatâd.

(i) Argymhelliad clir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Ymgymerwr Dŵr neu Garthffosiaeth neu eu cynrychiolwyr, y Prif Swyddog Priffyrdd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel gweithredwr Priffyrdd, CCGC, CADW neu’r Heddlu i wrthod cais.

(ii) Mwy na 5 llythyr unigol yn gwrthwynebu ar sail cynllunio gan gymdogion / aelodau’r cyhoedd neu 4 llythyr unigol yn nodi sail gynllunio ynghyd â gwrthwynebiad gan Gyngor Cymuned.

(iii) Lle mae Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio wedi rhoi caniatâd i Aelod wneud cais ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod i’r cais ymddangos yn y papurau gwybodaeth wythnosol sy’n darparu sail cynllunio gadarn pam fod angen i’r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ynghylch y cais.

1.3 Ceisiadau a gyflwynwyd ar gyfer datblygiad gan y Cyngor neu ddatblygiad ar dir y Cyngor (ar wahân i waith o fewn y briffordd sy’n ymwneud â mynediad).

1.4 Ceisiadau a gyflwynwyd gan swyddogion y Cyngor a gyflogir o fewn y swyddogaeth rheoli datblygu neu eu perthnasau agos ac mai argymhelliad y swyddog yw rhoi caniatâd.

1.5 Ceisiadau a gyflwynwyd gan Prif Swyddogion o'r Cyngor neu eu perthnasau agos ac mai argymhelliad y swyddog yw rhoi caniatâd.

1.6 Ceisiadau a gyflwynwyd gan Aelodau o'r Cyngor neu eu perthnasau agos ac mai argymhelliad y swyddog yw rhoi caniatâd.

1.7 Pob penderfyniad sy'n ymwneud â rhoi'r gorau i ddefnyddio tir, dirymu neu addasu hawl neu ganiatâd a rhoi'r gorau i arddangos hysbyseb gyda chaniatâd tybiedig.

(Nodyn: mae adran 13 Tabl 1 Rhan 14 y Cyfansoddiad yn darparu ar gyfer pwerau tor parhad o dan adran 102 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i'w gweithredu yn unig gan y Cyngor).

2.0 I bwrpas paragraff 2 uchod ystyr '**datblygiad mawr'** fydd:
"Datblygiad yn cynnwys unrhyw un neu fwy o'r canlynol-
(a) mwyngloddio neu weithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer gwastraff mwynau;
(b) datblygu gwastraff;
(c) darparu anheddau lle bo: (i) nifer yr anheddau i'w darparu'n 10 neu fwy: neu (ii) y gwneir y datblygiad ar safle sydd ag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy ac na wyddys a yw'r datblygiad yn dod o fewn paragraff (c)(i);
(d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae arwynebedd llawr y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy: neu
(e) ddatblygiad a wneir ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy".

**ADRAN 14.6**

**Pwyllgorau Trwyddedu Statudol A Chyffredinol**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw mabwysiadu'r Datganiad Polisi Trwyddedu.

**<u>Dirprwyo Swyddogaethau</u>**

Dirprwywyd y materion canlynol naill ai i'r Pwyllgor Trwyddedu Statudol neu'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol:

| **Y mater i ymdrin ag ef** | **Pwyllgor** | **Is-bwyllgor** | **Swyddogion** |
|---|---|---|---|
| Cais am drwydded bersonol | | Os cyflwynir sylwadau | Os na chyflwynir sylwadau |
| Cais am drwydded bersonol gyda chollfarnau sydd heb ddarfod | | Pob achos | |
| Cais am drwydded eiddo/tystysgrif eiddo clwb | Os yw'r sylwadau'n ymwneud ag Effaith Cronnus | Os cyflwynir sylwadau | Os na chyflwynir sylwadau |
| Cais am ddatganiad dros dro | Os yw'r sylwadau'n ymwneud ag Effaith Cronnus | Os cyflwynir sylwadau | Os na chyflwynir sylwadau |
| Cais i amrywio trwydded eiddo/tystysgrif eiddo clwb | Os yw'r sylwadau'n ymwneud ag Effaith Cronnus | Os cyflwynir sylwadau | Os na chyflwynir sylwadau |
| Cais i amrywio deilydd trwydded bersonol ddynodedig | | Os cyflwynir sylwadau gan yr heddlu | Pob achos arall |
| Cais i ddileu deilydd trwydded bersonol ddynodedig | | | Pob achos |
| Cais i drosglwyddo trwydded eiddo | | Os cyflwynir sylwadau gan yr heddlu | Pob achos arall |
| Cais am Awdurdodau Interim | | Os cyflwynir sylwadau gan yr heddlu | Pob achos arall |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cais i adolygu trwydded eiddo / tystysgrif eiddo clwb | | Pob achos | |
| Penderfynu a yw’r gŵyn yn amherthnasol, yn wamal, neu’n drallodus a.y.y.b. | | | Pob achos |
| Penderfynu gwrthwynebu pan fo awdurdod lleol yn ymgynghorai ac nid yr awdurdod | | | Pob achos |
| Penderfynu ynglŷn â sylwadau’r heddlu am rybudd digwyddiad dros dro | | Pob achos | |
| Penderfynu ar ffioedd ar gyfer Marchnadoedd (hurio preifat) | | | Pob achos |
| Rhoi ac adnewyddu Trwyddedau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat | | | Pob achos ac eithrio lle bo gan ymgeisydd neu ddeilydd trwydded gyfredol gollfarnau troseddol blaenorol wedi’u cofnodi yn ei (h)erbyn a/neu am droseddau moduro. Os oes gan ddeilydd y drwydded 9 pwynt cosb dilys neu ragor, wedi’u harnodi ar ei drwydded / thrwydded  yrru, yna, ymgynghorir â Chadeirydd Pwyllgor Trwydded a Rheoli Penodedig y Cyngor i gadarnhau a ddylid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli i benderfynu arno. |
| Cynnal adolygiadau trwyddedu | Pob achos | | |
| Fformiwleiddio Datganiad y Polisi Trwyddedu cyn ei fabwysiadu gan y Cyngor | Pob achos | | |

**ADRAN 14.7**

**<u>Cynllun Dirprwyo Ar Gyfer Swyddogion</u>**

**1. Diffiniad.**

1.1 Yn y cynllun hwn mae 'Prif Swyddog' yn golygu'r Prif Weithredwr, unrhyw Gyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth.

1.2 Mae unrhyw gyfeiriad at Ddeddf yn y cynllun hwn yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw newid i'r Ddeddf honno neu ailddeddfiad o hynny o unrhyw orchymyn neu ddeddfwriaeth eilradd a wnaethpwyd dan y ddeddf.

**2. Cyffredinol.**

2.1 Dan y cynllun hwn, awdurdodwyd pob prif swyddog i weithredu ar ran y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw fater o fewn ei faes/maes gwasanaeth. Bydd unrhyw ymarfer o bwerau a ddirprwywyd yn cydymffurfio â, ac yn amodol ar:-

2.1.1 Unrhyw ddarpariaethau statudol

2.1.2 Fframwaith Polisïau a Chyllidebau cyffredinol y Cyngor

2.1.3 Protocol ar Berthnasau Aelodau/Swyddogion, Cysylltu ag Aelodau Lleol a Chod Ymddygiad Swyddogion

2.1.4 Cyfansoddiad y Cyngor a'r Rheolau Gweithredu perthnasol

2.1.5 Rheoliadau Ariannol

2.1.6 Rheolau Gweithredu a Chontract Sefydlog

2.1.7 Yr egwyddorion ar gyfer cyflawni Gwerth Gorau

2.1.8 Trefniadau a gytunwyd arnynt ar gyfer cofnodi'r penderfyniadau

2.1.9 Cymryd unrhyw gyngor cyfreithiol neu broffesiynol a chydymffurfio ag o yn ôl y gofyn.

2.1.10 Ystyried cynaladwyedd yn gyffredinol a lles cenedlaethau presennol a'r dyfodol.

2.2. Lle mae ymarfer pwerau wedi'u dirprwyo yn debygol o effeithio ar fwy nag un gwasanaeth, mae'n rhaid i'r prif swyddog ymgynghori gydag unrhyw brif swyddog arall y gall ei wasanaeth gael ei effeithio.

2.3. Heb ragfarn i'w bwerau/phwerau neu rai'r Pwyllgor perthnasol, ac mewn amgylchiadau priodol yn unig, dylai pob prif swyddog wrth ymarfer ei bwerau/phwerau:-

2.3.1 roi gwybodaeth lawn i'r Cabinet, yn enwedig aelodau o'r Cabinet sy'n Ddeiliaid Portffolio ar gyfer y maes gwasanaeth dan sylw a hefyd roi ystyriaeth briodol i unrhyw sylwadau a wneir gan y pwyllgor craffu perthnasol ynglŷn â'r mater dan sylw.

2.3.2 Sicrhau ei fod o/hi yn ymgynghori â/ neu yn rhoi gwybod i'r aelod(au) lleol ymlaen llaw;

2.3.3 Sicrhau ei fod o/hi yn ymgynghori gyda/neu'n rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr.

Bydd rhagor o ganllawiau ar y mater hwn yn y Protocol i Reoli Cysylltiadau gydag Aelodau Lleol a Phrotocol ar berthnasau Aelodau/Swyddogion yn Adran 22.

2.4 Cyn ymarfer pŵer wedi'i ddirprwyo rhaid i bob prif swyddog ystyried os yw'r penderfyniad yn un a ddylid ei gyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer mewnbwn neu ei gyfeirio at y Cabinet, neu Bwyllgor neu Is-bwyllgor priodol ar gyfer penderfyniad.

2.5 Wrth benderfynu i gyfeirio mater at y Cabinet, Pwyllgor neu Is-bwyllgor bydd y prif swyddog yn ystyried y canlynol:-

2.5.1 bydd penderfyniadau dyddiol ar faterion technegol neu broffesiynol yn cael eu gwneud heb gyfeirio at yr Aelodau.

2.5.2 Rhaid ystyried barn yr aelod lleol, Deilydd Portffolio a phrif weithredwr.

2.5.3 Os yw penderfyniad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar broffil y Cyngor neu os yw'n debygol o ddenu sylwadau anffafriol yn y cyfryngau newyddion, neu bydd, efallai, â goblygiadau ariannol sylweddol, bydd rhagdybiaeth o blaid ei gyfeirio at yr aelodau.

2.6 Nid yw swyddogaethau yn cael eu dyrannu lle:

2.6.1 maen nhw wedi'u cadw gan y gyfraith neu'r Cyfansoddiad hwn ar gyfer y Cyngor;

2.6.2 ni ellir cael eu dirprwyo i swyddog dan y gyfraith

2.6.3 maent wedi'u cadw i'w harfer gan Aelod Gweithredol neu'r Aelodau

2.7 Mae'r pwerau sydd wedi'u rhestru yn y ddogfen o'r enw 'Swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet' sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 14 y Cyfansoddiad yn cael eu dirprwyo i'r prif swyddog sydd wedi ei enwi ym mhedwaredd golofn y ddogfen honno. Lle nad oes enw prif swyddog, nid yw'r pŵer yn cael ei ddirprwyo i swyddogion ond mae'n cael ei gadw gan y Pwyllgor sydd wedi ei enwi yn y drydedd golofn.

2.8 Bydd unrhyw swyddogaeth newydd a ddaw'n gyfrifoldeb y Cyngor yn cael ei gynnwys o fewn y cynllun hwn heb yr angen am i'r Cyngor newid y Cynllun ac os fydd unrhyw amheuaeth yn codi ynglŷn â pha brif swyddog sy'n gyfrifol am y swyddogaeth bydd y Prif Weithredwr yn penderfynu.

## 3. Dirprwyo Cyffredinol – Pwerau Penodol

3.1 Mae pob prif swyddog (ar ôl ymgynghori â'r Deiliaid Portffolio perthnasol lle bo hynny'n briodol) wedi ei awdurdodi i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i ddiogelu neu hyrwyddo diddordebau'r Cyngor, yn unol â'r cyfyngiadau sydd wedi'u nodi ym mharagraff 2 uchod.

3.2. Heb ragfarn i gyffredinolrwydd y darpariaethau uchod, mae hyn yn cynnwys ymarfer ei farn broffesiynol i wneud penderfyniadau sydd eu hangen i weithredu polisïau'r Cyngor ac i hyrwyddo rheoli a darparu'r gwasanaethau y mae o/hi yn gyfrifol amdanynt.

3.3. Gellir rhyddhau unrhyw bwerau a roddir i brif swyddog, naill ai yn ei absenoldeb/habsenoldeb gan swyddog(ion) sydd wedi ei awdurdodi ganddo/ganddi neu yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau neu ddarpariaethau cyffredinol a wnaethpwyd ganddo/ganddi. Yn absenoldeb y prif swyddog mae unrhyw swyddog sydd wedi ei benodi ganddo/ganddi i ddirprwyo ar ei ran/rhan hefyd yn gallu awdurdodi ymarfer y pwerau sydd wedi'u dirprwyo. Er mwyn osgoi amheuaeth ni ellir rhoi awdurdod o'r fath i unigolion nad ydynt yn swyddogion y Cyngor ac eithrio bod trefniant sy'n hwyluso gweithio ar y cyd gyda'r awdurdod sy'n cyflogi'r unigolyn perthnasol. Os nad oes awdurdod o'r fath wedi'i roi cyn absenoldeb y Prif Swyddog gall y Prif Weithredwr awdurdodi unrhyw swyddog neu swyddogion eraill y mae'n credu sy'n addas i arfer grymoedd y Prif Swyddog absennol.

3.4. Mae pob prif swyddog yn gallu awdurdodi ei staff i ymarfer pwerau yn ôl yr angen i fynd ar dir neu i archwilio unrhyw dir, adeiladau neu eiddo ac i ddarparu unrhyw dystiolaeth neu awdurdod yn ôl yr angen ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau yn unol â phwerau statudol y Cyngor.

3.5. Awdurdod i hawlio gwybodaeth dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu unrhyw ddeddfwriaeth alluogi arall.

3.6. Mewn perthynas â materion sydd wedi'u cadw i'r Cyngor, Cabinet neu Bwyllgor neu is-Bwyllgor arall, os yw'r mater yn un brys, bydd y prif swyddog perthnasol yn cael ei ganiatáu i weithredu rhwng cyfarfodydd, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio perthnasol ac aelodau lleol ac arweinyddion y grwpiau gwleidyddol fel bo hynny'n briodol, ar yr amod fod unrhyw weithred o'r fath yn gyson â pholisïau cyffredinol y Cyngor a bod adroddiad ar y camau a gymerwyd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor, y Cabinet, Pwyllgor neu is-Bwyllgor.

3.7. Mewn ymgynghoriad gyda Phennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol lle bo hynny'n briodol, mae pob prif swyddog wedi ei awdurdodi i weithio mewn perthynas â materion staff, gan gynnwys recriwtio, penodi, adolygu strwythur, cymeradwyo hiciau cyflog carlam o fewn y raddfa ar gyfer y swydd, rhoi honorariwm dros dro, disgyblu a diswyddo staff, yn amodol ar unrhyw faterion sydd wedi'u cadw i'r Cyngor, Cabinet neu is-Bwyllgor Personél y Cabinet ac yn amodol (mewn achosion o newid strwythur sy'n cynnwys trosglwyddo cyllid o benawdau cyllideb eraill) a chydymffurfio â Rheolau Gweithredu Ariannol ac i dderbyn cymeradwyaeth y Deilydd Portffolio Perthnasol.

3.8. Penodi ar ôl ymgynghori gyda'r Cyfarwyddwr Strategol a chael ei gytundeb, gweithwyr dros dro am gyfnodau o hyd at 12 mis neu am hyd prosiect penodol ar yr amod bod costau wedi'u cynnwys o fewn amcangyfrifon wedi'u cymeradwyo yn amodol ar gydymffurfiad gydag unrhyw drefniadau rheoli swyddi gwag.

3.9. Pennu penodi swyddogion ar gyfer dibenion penodol i gyflawni gwaith fel arolygwyr, swyddogion priodol, neu ddynodiadau tebyg eraill sydd wedi'u

cynnwys mewn deddfwriaeth gyfredol neu ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

3.10. Mae pob prif swyddog yr awdurdod wedi'i awdurdodi i weithredu mewn perthynas â chaffael a chontractau o fewn y gyllideb sydd wedi ei chymeradwyo ac yn unol â'r rheolau contract sefydlog gan gynnwys y pŵer i ddileu contractwyr o'r rhestrau sydd wedi'u cymeradwyo, ar ôl methu â chwrdd meini prawf y Cyngor.

3.11. Mae pob prif swyddog wedi'i awdurdodi ar faterion ariannol yn unol â'r Rheoliadau Ariannol.

3.12. Mae pob prif swyddog wedi ei awdurdodi i reoli asedau, cerbydau ac offer sy'n perthyn i'r Gwasanaeth y mae o/hi yn gyfrifol amdano. Mae hyn yn cynnwys rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw ddigwyddiad i'w gynnal ar dir y Cyngor a llogi ystafelloedd mewn adeiladau y mae o/hi yn gyfrifol amdanynt am gyfnodau o 24 awr neu lai.

3.13. Mae pob prif swyddog wedi'i awdurdodi i gyflwyno ceisiadau cynllunio mewn perthynas â chynlluniau wedi'u cymeradwyo ac i fod yn gyfrifol am roi penderfyniadau, caniatâd, trwyddedau a rhybuddion ar ran y Cyngor.

3.14. Awdurdod i gyflawni gwaith neu ddarparu gwasanaethau i drydydd parti yn amodol ar argaeledd adnoddau, nad oes unrhyw effaith niweidiol ar ddarparu gweithgareddau'r Cyngor, a chodi tâl priodol.

3.15. Mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid ac Adnoddau a'r Deilydd Portffolio priodol, pŵer i bennu pob ffi a thâl yn unol â pholisïau'r Cyngor.

3.16. Penodir Pennaeth Archwilio a Chaffael yn Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor (SIRO).

3.17 Er mwyn derbyn cymeradwyaethau grant am gyllid gan gyrff allanol, rhaid cael awdurdodiad gan unrhyw ddau o'r Prif Swyddogion canlynol: Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Strategol a Phennaeth y Gyfraith a Llywodraethu.

## 4.1 <u>Dynodi Swyddogion Statudol a Phriodol</u>

4.1.1 Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 1972 ynghyd â deddfwriaeth arall mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud penodiadau statudol penodol sydd â chyfrifoldebau penodol.

4.1.2 Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 hefyd yn gwneud darpariaeth i swyddogion penodol gael eu dynodi gan yr Awdurdod sy'n eu cyflogi fel 'Swyddogion Priodol' er mwyn cyflawni swyddogaethau arbennig o dan amrywiol Ddeddfau'r Senedd.

## 4.2 <u>Swyddogion Statudol</u>

4.2.1 Mae’n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i awdurdodau lleol ddynodi swyddogion penodol i ymgymryd â chyfrifoldebau penodol. Amlinellir y rhain isod:-

| **Gofynion Statudol** | **Y Swyddog Statudol** | **Y Swyddog sy’n Gyfrifol** |
|---|---|---|
| Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 | Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig | Prif Weithredwr |
| Adran 8 ac<br><br>Adran 24 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | Swyddog Cofrestru Etholiadol<br>Swyddog Canlyniadau | Y Prif Weithredwr |
| Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai | Swyddog Monitro | Pennaeth Y Gyfraith a Llywodraethu |
| Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 | Prif Swyddog Ariannol | Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau |
| Adran 532 Deddf Addysg 1996 | Prif Swyddog Addysg | Pennaeth Gwasanaethau Addysg |
| Canllaw Statudol ar Rôl a Chyfrifoldebau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Leol 1970 | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg |
| Adran 27 – Deddf Plant 2004 | Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc | Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg |

**<u>Cyfrifoldebau Swyddogion Priodol</u>**

4.2.2 Prif Weithredwr

Mae'r Prif Weithredwr wedi'i benodi'n Swyddog Priodol mewn perthynas ag:-

(a) Unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw ddeddf a basiwyd cyn neu yn ystod sesiwn o'r Senedd 1971-72 ac eithrio Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu mewn unrhyw orchymyn a wnaed cyn 26 Hydref 1972 i Glerc Cyngor neu Glerc Tref Bwrdeistref, sydd, yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf uchod, i'w ddehongli fel cyfeiriad at Swyddog Priodol y Cyngor.

(b) Unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw ddarpariaeth statudol leol i Glerc y Cyngor neu i gyfeiriad tebyg sydd, yn rhinwedd Gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu Ddeddf Llywodraeth Leol 1992, i'w dehongli fel cyfeiriad at swyddog Priodol y Cyngor.

(c) Yn ychwanegol at unrhyw gyfrifoldebau y mae'r Prif Weithredwr wedi'i ddynodi'n swyddog priodol ar eu cyfer, mae'r Prif Weithredwr hefyd wedi'i ddynodi'n swyddog priodol mewn perthynas â holl ddynodiadau Swyddog Priodol i Gyfarwyddwr Strategol neu swyddogion eraill yn absenoldeb y Cyfarwyddwyr Strategol neu Swyddogion

Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau

Mae'r Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau wedi'i benodi'n Swyddog Priodol mewn perthynas ag:-

(a) Unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw ddeddf a basiwyd cyn neu yn ystod sesiwn o'r Senedd 1971-72 ac eithrio Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu mewn unrhyw orchymyn a wnaed cyn 26 Hydref 1972 i Drysorydd neu Drysorydd Bwrdeistref, sydd, yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf uchod, i'w ddehongli fel cyfeiriad at Swyddog Priodol y Cyngor.

(b) Unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw ddarpariaeth statudol leol i Drysorydd cyngor penodol neu Drysorydd bwrdeistref penodol sydd, yn rhinwedd Gorchymyn a wnaed o dan Adran 254 Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu Ddeddf Llywodraeth Leol 1992, i'w ddehongli fel cyfeiriad at Swyddog Priodol y Cyngor.

4.2.3 Mae dynodiadau Swyddog Priodol mewn perthynas â Darpariaethau Statudol penodol fel a ganlyn:

**Deddf Llywodraeth Leol 1972**

Pennaeth Y Gyfraith a Llywodraethu yw Swyddog Priodol pob swyddogaeth o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac eithrio'r canlynol:-

| **Adran y Ddeddf** | **Swyddogaeth** | **Swyddog a benodwyd** |
|---|---|---|
| 88(2) | Cynnal cyfarfod o'r Cyngor i lenwi swydd wag ar gyfer Cadeirydd | Prif Weithredwr |
| 115(2) | Derbyn arian sy'n ddyledus oddi wrth swyddogion | Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau |
| 146(1)(a) a (b) | Datganiadau a Thystysgrifau mewn perthynas â gwarantau | Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau |
| 191 | Swyddogaethau mewn perthynas ag Arolwg Ordnans | Prif Weithredwr |
| 234 | Dilysu dogfennau | Pob Pennaeth Gwasanaeth yn eu meysydd eu hunain |
| Atodlen 12, Paragraff 4(2)(b) | Llofnod ar gyfer Gwysion Cyfarfodydd y Cyngor | Prif Weithredwr |

**Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005**

| | | |
|---|---|---|
| 17 | Rhybudd o Adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu |

**Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976**

| | | |
|---|---|---|
| 41 | Tystiolaeth o Benderfyniadau a Chofnodion trafodion | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Deddf Adeiladu 1984**

| | | |
|---|---|---|
| 78 | Arfer pwerau i ddelio gydag Adeiladau peryglus ac ati | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

**Deddf Gwasanaeth Cofrestru 1953**

**<u>Rheoliadau Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau 1968 hyd 1994</u>**

| | | |
|---|---|---|
| | Gwahanol Swyddogaethau | Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu |

**Deddf Rhenti 1977**

| | | |
|---|---|---|
| Atodlen 15 Rhan IV | Tystysgrif yr Awdurdod Tai Lleol ynglŷn â darparu llety addas arall | Rheolwr Gwasanaethau Tai neu Bennaeth Tai Strategol |

**Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth)**

| | | |
|---|---|---|
| Atodlen 4 | Cyhoeddi Tystysgrif yr Awdurdod Tai ynglŷn â darparu llety addas arall | Rheolwr Gwasanaethau Tai neu Bennaeth Tai Strategol |

**<u>Ar gyfer Harbwr Conwy (Swyddogaethau dan Orchymyn Diwygio Harbwr Conwy 1982)</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Holl ddarpariaethau perthnasol y gorchymyn | Swyddogaethau amrywiol yr 'Harbwr Feistr' | Pen Swyddog Harbwr ac Arfor |

**Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974**

| | | |
|---|---|---|
| Rhan 1 | Swyddogaethau sy’n ymwneud ag iechyd a diogelwch dan unrhyw ‘ddarpariaeth statudol berthnasol’ o fewn diffiniad Rhan 1 y Ddeddf, i’r graddau fod y swyddogaethau hynny yn cael eu cyflawni mewn modd heblaw na yn rhinwedd y Cyngor fel cyflogwr | Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio |

**Deddf Llywodraeth Leol (Cytundebau) 1997**

| | | |
|---|---|---|
| Adran 3 | Darparu tystysgrif dan y Ddeddf | Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau |

**Rheoliadau Elw Troseddau a Gwyngalchu Arian**

| | | |
|---|---|---|
| | Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian | Swyddog Adran 151<br>(gweler tabl Swyddogion Statudol) |

**Deddf Tai 2004**

| | | |
|---|---|---|
| | Swyddog Awdurdodedig | Pennaeth Tai Strategol |

**Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data**

| | | |
|---|---|---|
| Erthygl 37 | Swyddog Diogelu Data | Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth |

**4.3 Mae'r pwerau a'r dyletswyddau penodol a ganlyn wedi'u dirprwyo i'r prif swyddog a enwyd isod.**

4.3.1 <u>Prif Weithredwr</u>

1. Wedi'i awdurdodi i wneud penderfyniadau mewn perthynas ag unrhyw fater o fewn ei faes / maes cyfrifoldeb, ar yr amod bod y penderfyniad:

   a) O fewn y gyllideb

   b) Yn unol â Fframwaith Polisi'r Cyngor

   c) Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor

   d) Nad yw'n fater a gadwyd yn benodol ar gyfer y Cyngor Llawn, Pwyllgor y Cyngor, y Cabinet neu Swyddog Statudol.

2. Pŵer i gyflwyno ceisiadau a chynnal trafodaethau ar gyfer cyllid allanol sydd er pennaf les y Cyngor yn amodol ar adnoddau'r Cyngor sydd ar gael.

3. Pŵer i weithredu gan ymgynghori â Chadeirydd y Cyngor ynglŷn ag unrhyw benderfyniadau sy'n gofyn am gamau gweithredol brys yn y cyfnod o'r cyfarfod Gweithredol diwethaf cyn etholiadau ac sy'n parhau nes bydd yr aelodau Gweithredol newydd wedi'u dewis gan yr Arweinydd ar ôl yr etholiad.

4. Awdurdod mewn perthynas â chreu swyddi newydd lle mae arian (boed allanol neu fewnol) yn cael ei nodi, dileu swyddi a newidiadau ar raddfa fach o ganlyniad i ad-drefnu staff, er enghraifft, os yw'n effeithio ar 10 neu lai o aelodau staff, mewn ymgynghoriad â'r Deiliaid Portffolio, y Cyfarwyddwyr Strategol perthnasol a Phennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol. Gellir cyfeirio unrhyw benderfyniad at y Cabinet er ystyriaeth os oes angen. *(Mae'r Cabinet yn gyfrifol am newidiadau sefydliadol sy'n effeithio ar 11 neu fwy o staff neu swyddi).*

5. Awdurdod i newid aelodaeth swyddogion ar y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol a'r Cydbwyllgor Hybu Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol ar ei ddisgresiwn ei hun (ond nid nifer y seddi swyddogion).

6. Cymeradwyo swyddi gwag yn unol â'r Weithdrefn Rheoli Swyddi Gwag.

7. Yn ogystal â'r Paragraff uchod, cyfrifoldebau rheolwr atebol dros y Penaethiaid Gwasanaeth canlynol:

   - Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau
   - Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu

- Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio
- Pennaeth Tai Strategol

4.3.2 Cyfarwyddwyr Strategol

1. Mae'r holl Gyfarwyddwyr Strategol wedi'u hawdurdodi i wneud unrhyw benderfyniad sy'n gysylltiedig â mater o fewn eu maes o gyfrifoldeb, ar yr amod bod y penderfyniad:

a) O fewn y gyllideb
b) Yn unol â Fframwaith Polisi'r Cyngor
c) Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor
d) Nad yw'n fater a gadwyd yn benodol ar gyfer y Cyngor Llawn, Pwyllgor y Cyngor, y Cabinet neu Swyddog Statudol.

2. Cymeradwyo swyddi gwag yn unol â'r Weithdrefn Rheoli Swyddi Gwag.

4.3.3 Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau

1. Yn ogystal â Pharagraff 4.3.2, cyfrifoldebau rheolwr atebol dros y Penaethiaid Gwasanaeth canlynol:

- Pennaeth Cyllid
- Pennaeth Archwilio a Chaffael
- Pennaeth Pobl a Pherfformiad
- Pennaeth TG a Thrawsnewid Digidol
- Pennaeth yr Economi a Diwylliant

2. Gweithredu o ddydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:

- Darparu arweinyddiaeth broffesiynol glir ledled cyfarwyddiaeth Cyllid ac Adnoddau;
- Cysylltu'n uniongyrchol â'r Prif Weithredwr a'r Cynghorwyr a'u cynghori ynglŷn â materion Cyllid ac ar y cyfeiriad a'r camau gweithredu y dylai'r awdurdod eu cymryd mewn perthynas â materion ariannol;
- Sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith ledled cyfarwyddiaeth Cyllid ac Adnoddau, ac adrodd ar lefel gorfforaethol ac wrth y Cynghorwyr ynglŷn â pherfformiad yr awdurdod mewn perthynas â hwy;
- Sicrhau bod y Cyngor yn gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol;
- Arwain yr holl awdurdod i hybu a chyflawni rheolaeth ariannol dda fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu bob amser a'i ddefnyddio'n briodol, yn economaidd, effeithlon ac effeithiol.

3. Gwasanaethau Ariannol - i weithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Bod y swyddog priodol i ddibenion Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a’r pŵer i benodi dirprwy i weithredu yn eu habsenoldeb.
- Bod y swyddog priodol i ddibenion Adrannau 115 a 146 Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- Yr hawl i lofnodi tystysgrif nad yw prydles neu gontract yn cynnwys trefniadau credyd.
- Yr hawl i lofnodi tystysgrif bod contractau yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997.
- Awdurdodi dileu dyledion hyd at y symiau sydd wedi’u nodi yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol
- Enwebu swyddogion awdurdodedig dan Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992
- Gwneud Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chyrff allanol i gyflawni cyfrifon, cyflogau, taliadau credydwyr, buddsoddiadau a benthyca’r corff hwnnw
- Trefnu trefniadau bancio’r Cyngor.
- Awdurdodi trefniadau prydlesu.
- Awdurdodi a rheoli taliadau arian mân.
- Awdurdodi rhoi Cardiau Credyd/Prynu.
- Awdurdodi’r defnydd o systemau ariannol electronig i drosglwyddo arian i’r dibenion uchod.

4. Cymeradwyo / anghymeradwyo ceisiadau disgresiwn cyflogwr (Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014) mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol, Cyfarwyddwr priodol y gwasanaeth y mae'r ymgeisydd yn gweithio ynddo (neu wedi gweithio ynddo, os yw’n gyn-weithiwr) a'r Aelodau Portffolio Cyllid ac Adnoddau a Chyfathrebu sy'n ymwneud â:

    - Hepgor yr holl Ostyngiadau Acitwaraidd, neu ran ohono
    - Hepgor yr holl Ostyngiadau Acitwaraidd, neu ran ohono: Cyflogwyr cyfredol: Rheol 85 mlynedd
    - Hepgor yr holl Ostyngiadau Acitwaraidd, neu ran ohono: Cyn-weithwyr

5. I gymeradwyo ceisiadau ymddeoliad hyblyg mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol a Chyfarwyddwr priodol y gwasanaeth y mae’r ymgeisydd yn gweithio ynddo, ac eithrio pan fo cais yn cael ei wneud gan Bennaeth Gwasanaeth (Prif Swyddog), Cyfarwyddwr Strategol, neu'r Prif Weithredwr ac os felly bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan yr Uwch Bwyllgor Cyflogaeth oni bai bod gwerth cyffredinol y "pecyn" yn debygol o fod yn uwch na throthwy newydd Llywodraeth Cymru o £100,000, lle byddai’r cais wedyn yn cael ei gyfeirio at y Cyngor am benderfyniad.

6. Cymeradwyo gwarediad tir neu asedau eiddo (buddiannau rhydd-ddaliad a lesddaliad a chymeradwyo hawddfreintiau neu godi cyfamodau cyfyngol/rhwymedigaethau perthnasol) lle:

- Nad yw'r gwerth gwarediad yn uwch na £50,000;
- Mae'r gwarediad yn unol â Pholisi Gwaredu'r Cyngor a gofynion cyfreithiol;
- Mae ymgynghoriad wedi digwydd â'r Aelod Cabinet perthnasol ymlaen llaw.

4.3.4 <u>Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg</u>

1. Yn ogystal â Pharagraff 4.3.2, cyfrifoldebau rheolwr atebol dros y Penaethiaid Gwasanaeth canlynol:

- Pennaeth Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu
- Pennaeth Addysg
- Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig

2. Yn ogystal â Pharagraff 4.3.2, i weithredu fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am y canlynol:

- Darparu arweiniad proffesiynol clir ledled y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cael mynediad uniongyrchol a chynghori'r Prif Weithredwr a'r Cynghorwyr ynglŷn â materion y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar gyfeiriad a gweithredoedd y dylai'r awdurdod eu cyflawni er mwyn diwallu ei gyfrifoldebau o ran y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad cryf yn eu lle ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac adrodd ar lefel gorfforaethol ac i Gynghorwyr ar berfformiad yr awdurdod o ran y rhain;
- Sicrhau bod gan yr awdurdod drefnau priodol i ddiogelu plant a phobl ifanc, oedolion a phobl hŷn diamddiffyn, ac adrodd ar lefel gorfforaethol ac i Gynghorwyr ar effeithlonrwydd y trefnau hyn;
- Cynnal cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer cynllunio, hyfforddi a datblygiad proffesiynol gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol; a
- Sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol i weithio'n effeithiol gyda phobl eraill, o fewn a thu allan i'r Awdurdod, wrth gyflawni ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ac wrth gyfrannu at gyflawni amcanion polisi ehangach.
- Yn amodol ar 2.5.3 ac wrth ymgynghori â'r Aelod Cabinet perthnasol, gwneud penderfyniadau yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

3. I arfer pwerau dan yr holl Ddeddfau a restrir yn Atodlen 1 Deddf Awdurdodau Lleol (Gwasanaethau Cymdeithasol) 1970.

4. I arfer y pwerau dan adran 47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

5. Rôl Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc o dan Adran 27 Deddf Plant 2004.

4.3.5 <u>Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu</u>

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn

   perthynas â materion o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â'r canlynol, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain:

   - Cyfreithiol
   - Uned Iaith
   - Gwasanaethau Cofrestru
   - Gwasanaethau Democrataidd
   - Cefnogi Busnes

2. Dechrau amddiffyn neu gytuno ar achosion (naill ai yn enw'r Cyngor neu yn enw swyddog unigol o'r Cyngor) dan gyfraith gwlad neu dan unrhyw ddeddfwriaeth, deddfwriaeth eilaidd neu'r is-ddeddf sydd naill ai yn rhoi swyddogaethau i'r Cyngor neu sy'n berthnasol i swyddogaethau a wneir gan y Cyngor a'r apêl yn erbyn unrhyw ddyfarniad cyfreithiol.

   Er mwyn osgoi amheuaeth mae'r awdurdod hwn yn cynnwys yr awdurdod i gymryd pob mesur trefniadol gan gynnwys rhoi rhybuddion statudol neu rybuddion nad ydynt yn statudol neu wrth-hysbysiadau a rhybuddion troi allan.

3. Awdurdodi swyddog y Cyngor i ymddangos ar ran y Cyngor mewn achosion dan Adran 60 Deddf Llysoedd Sirol 1984 ac yn y Llys Ynadon dan Adran 223 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4. Awdurdod i lofnodi tystysgrif i ddibenion Cofrestrfa Tir Ei Fawrhydi ac i gofrestru unrhyw bridiant tir ar ran y Cyngor.

5. Awdurdod i osod sêl gyffredin y Cyngor i ddogfennau ar ôl penderfyniad dilys gan y Cyngor neu'r Gweithgor, Pwyllgor, Deilydd Portffolio neu swyddog sy'n arfer pwerau wedi'u dirprwyo ac i awdurdodi swyddogion eraill i wneud yr un fath.

6. Awdurdod i weithredu (mewn ymgynghoriad â Phennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio neu ei Ddirprwy) fel Swyddog Awdurdodedig i bwrpas Deddf Rheoleiddio Pwerau Archwilio 2000.

7. Gwneud cais i'r Llys am Orchmynion Gwahardd Yfed (Adrannau 1-14 Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006) trwy ymgynghori â Phennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio.

4.3.6 <u>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd</u>

1. Gweithredu o ddydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd a

   ganlyn:

- Etholiadau / Cofrestru Etholiadol
- Gwasanaethau Aelodau
- Gwasanaethau Pwyllgorau
- Gwasanaethau Craffu

2. Darparu cefnogaeth a chyngor (ynglŷn â swyddogaethau'r pwyllgorau trosolwg a chraffu a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd):

   - I'r Awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd;
   - I Bwyllgorau'r awdurdod ac aelodau'r pwyllgorau hynny;
   - I unrhyw gydbwyllgor mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am ei drefnu ac aelodau'r pwyllgor hwnnw
   - Mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r Awdurdod, i aelodau'r Awdurdod, aelodau'r Cabinet a'r Swyddogion
   - I bob aelod o'r Awdurdod wrth weithredu rôl aelod o'r Awdurdod

3. Hyrwyddo rôl Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod.

4. Gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â nifer a graddau'r staff sydd eu hangen i ymgymryd â swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd a phenodi, trefnu a rheoli'r staff hynny'n iawn.

5. Ymgymryd â dyletswyddau yn unol â Rheoliadau Absenoldebau Teuluol Aelodau Llywodraeth Leol (Cymru) 2013.

6. Unrhyw swyddogaethau eraill a ragnodir gan Weinidogion Cymru.

4.3.7 <u>Pennaeth Cyllid</u>

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn enwedig o ran y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

   - Cyfrifeg a Thrysorlys
   - Refeniw a Budd-daliadau
   - Cyfrifo (gan gynnwys cyllidebu Refeniw a chyfrifon terfynol a chyllidebu Cyfalaf a chyfrifon terfynol)
   - Rheoli risg ac yswiriant
   - Taliadau Credydwyr (gan gynnwys Cynllun Didynnu Treth y Diwydiant Adeiladu a thaliadau hunan gyflogedig)
   - Y cynllun pensiwn gan gynnwys cynllun pensiynau athrawon
   - Rheoli'r Trysorlys (gan gynnwys buddsoddiadau a benthyciadau i ddibenion refeniw a chyfalaf a buddsoddiadau ar gyfer cyllid y mae'r Cyngor yn geidwad arno)
   - Cyflogau (gan gynnwys lwfansau ceir, treuliau, buddion gweithwyr, treth incwm, yswiriant gwladol a phob didyniad arall)

- Cynllun Prydlesu Ceir
- Materion trethi gan gynnwys treth incwm a TAW y Cyngor.

2. Bod yn Ddirprwy Swyddog Adran 151 a gweithredu'n ddyddiol ac o fewn y cynllun mewn perthynas â'r meysydd a nodir yn adran 4.3.3 (2), fel dirprwy i Gyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Adnoddau.

3. Rheoli'r swyddogion canlynol wrth weithredu eu swyddogaethau.

   Rheolwr Trethu Lleol - Gweithredu o ddydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

   - Casglu Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol
   - Awdurdod i gymryd camau cyfreithiol i adennill unrhyw arian sy'n ddyledus i'r Cyngor
   - Awdurdodi staff i ymddangos ar ran yr Awdurdod i gynnal gweithdrefnau yn y Llys Ynadon o dan A.223 Deddf Llywodraeth Leol 1972
   - Trafod dyledion, gan gynnwys argymell diddymu i'r Aelod Cabinet priodol
   - Awdurdodi diddymu dyledion hyd at y swm a nodwyd yn y Rheoliadau Ariannol
   - Awdurdodi rhoi rhyddhad yn ôl disgresiwn gan Drethi Annomestig Cenedlaethol os yw'r dyfarniadau yn dilyn y Polisi Trethi Annomestig a'r Canllawiau ar gyfer Rhyddhad Disgresiwn, Gwledig a Chaledi

   Rheolwr Asesiadau Ariannol a Budd-daliadau - Gweithredu o ddydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

   - Gweinyddu Budd-dal Tai / Gostyngiad i Dreth y Cyngor
   - Asesu Dyfarniadau Taliad Disgresiwn at Gostau Tai
   - Asesiad Ariannol o Ffioedd Gofal Cartref a Phreswyl
   - Asesu Prydau Ysgol am Ddim a Grantiau Gwisg Ysgol
   - Awdurdod i wneud penderfyniadau yn ôl disgresiwn yn unol â Rheoliadau Budd-dal Tai / Gostyngiad i Dreth y Cyngor
   - Canfod ac Atal Twyll Budd-dal Tai / Gostyngiad i Dreth y Cyngor
   - Awdurdod i gymryd camau cyfreithiol i adennill unrhyw arian sy'n ddyledus i'r Cyngor
   - Awdurdod i gymryd camau o dan Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol (Twyll) 1997
   - Trafod dyledion, gan gynnwys argymell diddymu i'r Aelod Cabinet priodol
   - Awdurdodi diddymu dyledion hyd at y swm a nodwyd yn y Rheoliadau Ariannol

   Rheolwr Incwm a Chysoni - Gweithredu o ddydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Casglu Dyledion Amrywiol
- Casglu Incwm Corfforaethol a Chysoni Trafodion Banc
- E-daliadau a gwaith datblygu cysylltiedig
- Rheoli Morgeisi'r Cyngor
- Awdurdod i gymryd camau cyfreithiol i adennill unrhyw arian sy'n ddyledus i'r Cyngor
- Trafod dyledion, gan gynnwys argymell diddymu i'r Aelod Cabinet priodol
- Awdurdodi diddymu dyledion hyd at y swm a nodwyd yn y Rheoliadau Ariannol

4.3.8 Pennaeth Pobl a Pherfformiad

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â'r canlynol, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain:

   - Telerau ac amodau gwasanaethau (mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaeth priodol).
   - Cydberthnasau diwydiannol.
   - Hyfforddi a datblygu staff.
   - Gweithdrefnau recriwtio a phenodi.
   - Cyfrifoldeb y cyflogwr am fesurau iechyd a diogelwch.
   - Ymddeol.
   - Terfynu Cyflogaeth.
   - Cyfathrebu a Marchnata (ac eithrio Tîm y Celfyddydau, Diwylliant a Theatrau).
2. Gweithredu fel swyddog priodol ar gyfer llofnodi ceisiadau am wiriadau gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.

3. Pennu ar ran y Cyngor fel cyflogwr, rhan 1 apêl dan weithdrefn fewnol datrys anghydfod Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol.

4. Penderfynu ceisiadau ail raddio (i'w gweithredu trwy'r drefn werthuso swyddi a threfn cynnal y cynllun).

5. Awdurdod, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i ymateb ar ran y Cyngor i ymholiadau neu ymgynghori ynglŷn â materion cyflogau a statws sengl gan y Cyflogwyr Cenedlaethol.

6. Rhoi cyfarwyddiadau sy'n gofyn gohirio gweithrediadau a wneir gan weithwyr y Cyngor neu sy'n cynnwys gweithwyr y Cyngor pan bennir bod y gweithrediadau'n rhy beryglus neu yn mynd yn groes i unrhyw ofyniad statudol.

7. Cymeradwyo / anghymeradwyo ceisiadau disgresiwn cyflogwr (Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014) mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Adnoddau), Cyfarwyddwr priodol y gwasanaeth y mae'r ymgeisydd yn gweithio ynddo (neu wedi gweithio ynddo, os yw'n gyn-weithiwr) ac Aelodau Portffolio Cyllid ac Adnoddau a Chyfathrebu sy'n ymwneud â:

- Hepgor yr holl Ostyngiadau Acitwaraidd, neu ran ohono
- Hepgor yr holl Ostyngiadau Acitwaraidd, neu ran ohono: Cyflogwyr cyfredol: Rheol 85 mlynedd
- Hepgor yr holl Ostyngiadau Acitwaraidd, neu ran ohono: Cyn-weithwyr

8. I gymeradwyo ceisiadau ymddeoliad hyblyg mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Adnoddau), a Chyfarwyddwr priodol y gwasanaeth y mae'r ymgeisydd yn gweithio ynddo, ac eithrio pan fo cais yn cael ei wneud gan Bennaeth Gwasanaeth (Prif Swyddog), Cyfarwyddwr Strategol, Cyfarwyddwr neu'r Prif Weithredwr ac os felly bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan yr Uwch Bwyllgor Cyflogaeth oni bai bod gwerth cyffredinol y "pecyn" yn debygol o fod yn uwch na throthwy newydd Llywodraeth Cymru o £100,000, lle byddai'r cais wedyn yn cael ei gyfeirio at y Cyngor am benderfyniad.

4.3.9 Pennaeth Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion sydd o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â'r canlynol, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain:

**Cefnogi Plant a Theuluoedd ac Ymyrraeth:**

- Darparu cefnogaeth i Blant mewn Angen dan Rhan III Deddf Plant 1989.
- Dechrau achosion Llys
- Rhoi caniatâd i orchmynion cyfraith breifat, gan gynnwys gorchmynion preswyl a gwarchodaeth arbennig, lle bo'n briodol.
- Gwasanaeth Tîm Dyletswydd Brys

**Plant Sy'n Derbyn Gofal:**

- Cyflawni swyddogaethau dan Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyngwladol)
- Cynnal gwasanaethau maethu a mabwysiadu
- Rôl Gwneuthurwr Penderfyniadau Asiantaeth

**Cyfiawnder Ieuenctid:**

- Tîm Cyfiawnder Ieuenctid gan gynnwys amddiffyn Pobl Ifanc mewn achosion troseddol

**Pobl Ddiamddiffyn:**

- Darpariaeth gwaith cymdeithasol mewn perthynas ag Iechyd Meddwl
- Colli Rhyddid

- Darpariaeth gwaith cymdeithasol mewn perthynas â Chamddefnyddio Sylweddau
- Gwasanaeth Dirprwyon wedi'u penodi gan y Llys
- Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol a Theuluol
- Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn
- Darpariaeth ar gyfer rhai sy'n gadael gofal

**Ansawdd, Polisi a Safonau:**

- Swyddogaethau diogelu ar gyfer oedolion a phlant
- Gwasanaeth Swyddog Monitro
- Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu (ar draws y gwasanaethau cymdeithasol)
- Arweinydd ar gyfer cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol

4.3.10 <u>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig</u>

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion sydd o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â'r canlynol, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain:

    - Gwasanaethau Pobl Hŷn
    - Gwasanaethau Anabledd Gydol Oes gan gynnwys Plant gydag Anabledd, Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol a Nam Synhwyrol gan gynnwys ymrwymiad statudol i gynnal cofrestr o bobl gydag anableddau penodol
    - Gofal preswyl a nyrsio – caffael a hwyluso
    - Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (gan gynnwys ailalluogi) – caffael a hwyluso ar gyfer Pobl Hŷn a'r rhai ag anableddau
    - Darpariaeth Gwasanaeth Dydd ar gyfer Pobl Hŷn a rhai ag anableddau
    - Cymorth Busnes (gan gynnwys Cludiant a Bathodynnau Glas)
    - Gofalwyr
    - Gofal Cwsmer a Thechnoleg Gynorthwyol
    - Therapi Galwedigaethol
    - Taliadau Uniongyrchol
    - Lles Cymunedol (gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaethau Ataliol)
    - Comisiynu ar gyfer y boblogaeth gyfan
    - Trefniadau partneriaeth a hwyluso
    - Cludiant Cymunedol

2. Gweithredu fel unigolyn cyfrifol at ddibenion Deddf Safonau Gofal 2000.

4.3.11 <u>Pennaeth Archwilio a Chaffael</u>

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion sydd o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â'r canlynol, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain:

   - Archwilio
   - Caffael
   - Cynnal unrhyw archwiliadau eraill sy'n briodol a hawl mynediad at bob gwybodaeth/cofnod a safle/eiddo angenrheidiol i gyflawni'r dasg honno
   - Hawl i gyfeirio at asiantaethau allanol pan bennir bod hynny'n briodol

2. Awdurdod i weithredu (mewn ymgynghoriad âr Phennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio neu ei Ddirprwy) fel Swyddog Awdurdodedig i ddibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

3. Ffurfio Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chyrff allanol i ymgymryd â chyfrifon y corff, cyflogau, taliadau credydwyr, buddsoddiadau a benthyca.

4. Llywodraethu Gwybodaeth a Chanmoliaethau a Chwynion

5. Gweithredu fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth

6. Gweithredu fel Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian (SAGA)

4.3.12 <u>Pennaeth Gwasanaeth yr Economi a Diwylliant</u>

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn enwedig o ran y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

   - Rheoli Lleoliadau
   - Rheoli Digwyddiadau
   - Diwylliant a Gwybodaeth
   - Datblygu Economaidd
   - Rheoli Busnes Economi a Diwylliant
   - Bywydau egnïol a chreadigol
   - Datblygiad chwaraeon a hamdden

2. Cyflwyno ceisiadau i'r Loteri Genedlaethol a ffynonellau arian allanol eraill fel a gymeradwywyd gan y Cynllun Cyfalaf, y Cynllun Gweithredol neu Strategaethau eraill.

3. Awdurdod i gymeradwyo gwariant o hyd at £10,000 ar ymchwil mewn perthynas â phrosiectau.

4. Cymeradwyo grantiau, ar ôl ymgynghori â'r Aelod Gweithredol perthnasol, o hyd at uchafswm o £25,000 mewn unrhyw achos unigol ar gyfer busnesau bach a chanolig.

5. Pwrcasu eitemau o fewn Polisi Caffael a Gwaredu'r Cyngor o hyd at £10,000 ar gyfer Gwasanaeth Amgueddfeydd y Cyngor.

6. Yr awdurdod i dderbyn neu wrthod anrhegion, cymynroddion neu fenthyciadau i Wasanaeth Amgueddfeydd y Cyngor o fewn telerau'r Polisi.

4.3.13 Pennaeth Gwasanaethau Addysg

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion sydd o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â'r canlynol, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain:

- Gwasanaethau cefnogi ysgolion – cyllid a phersonél, rheoli gwybodaeth / data, prydau ysgol, cludiant a rheoli safle
- Anghenion Dysgu Ychwanegol / Cynhwysiant Cymdeithasol (Deddf AAA ac Anableddau 2001)
- Lles a Phresenoldeb
- Cefnogi Llywodraethwyr
- Gwella ysgolion a chodi safonau addysg
- Derbyniadau i ysgolion
- Trefn Ysgolion (Deddf Trefn a Safonau Ysgolion (Cymru) 2013)
- Gwasanaeth Ieuenctid Conwy
- Gwobr Dug Caeredin
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Tîm y Blynyddoedd Cynnar

2. Ymyrryd mewn achosion lle mae pryderon ynglŷn â chyrhaeddiad disgyblion neu safonau neu reoli mewn ysgol benodol (Deddf 1998).

3. Cymryd unrhyw gamau y gellir eu cymryd dan ddeddfwriaeth i wahardd pobl o eiddo ysgolion a chymryd camau i'w symud oddi yno yn ôl y gofyn.

4. Trefnu cyfarfod panel apêl annibynnol ar gyfer: achosion unigol

disgyblion sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol; derbyniadau i ysgolion; a chludiant o'r cartref i'r ysgol

5. Atal hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig dan

amgylchiadau sydd wedi'u caniatáu gan y Ddeddf.

6. Gweithredu ynglŷn ag unrhyw faterion staffio ysgolion lle mae'r

penderfyniad yn un yr Awdurdod Addysg Lleol (yn hytrach na'r Corff Llywodraethu).

7. Gwneud mân newidiadau i'r Polisi Derbyniadau ar ôl ymgynghori priodol.

4.3.14 Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion sydd o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â'r canlynol, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain:

- Rheoli'r isadeiledd TGCh ac E-lywodraethu
- Pennu strategaethau TGCh mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Strategol
- Cyflawni pob elfen o waith caffael TGCh ar ran y Cyngor

4.3.15 Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion sydd o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â'r canlynol, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain:

- Rheoli datblygu ac adeiladu
- Adeiladau rhestredig
- Adeiladau peryglus a strwythurau anniogel
- Partneriaeth diogelwch cymunedol
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- TCC
- Trwyddedu (gan gynnwys hurio preifat)
- Enwi a rhifo strydoedd
- Cynnal tir yn briodol
- Safonau masnach
- Iechyd amgylcheddol
- Iechyd anifeiliaid
- Chwiliadau pridiannau tir a thir comin
- Gorfodi trwyddedu
- Safonau Bwyd a Phorthi
- Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

2. Gweithredu pwerau'r Cyngor mewn perthynas â gwrychoedd uchel.

3. Gweithredu holl bwerau'r Cyngor mewn perthynas â Diogelu'r Cyhoedd ac unrhyw rai a ddaw'n gyfrifoldeb y Cyngor yn y dyfodol.

4. Awdurdod i benodi arolygwyr dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb 1974.

5. Awdurdod i lofnodi tystysgrif i ddibenion Cofrestrfa Tir Ei Fawrhydi ac i gofrestru unrhyw bridiant tir ar ran y Cyngor.

6. Gweithredu holl bwerau'r Cyngor fel awdurdod cofrestru tir comin.

7. Y pŵer i weithredu pwerau gorfodi mewn perthynas â thramgwyddau amgylcheddol sy’n codi yn unrhyw un o’r meysydd a nodwyd isod (gan gynnwys camau y gellir eu hystyried yn angenrheidiol i atal troseddau, addysgu a rhoi rhybuddion cosb benodol).

- Baw cŵn.
- Diogelwch amgylcheddol.
- Symud a chael gwared â cherbydau.
- Cael gwared ag ysbwriel.
- Cymdogaethau glân.
- Rheoli llygredd.

8. Cyflawni swyddogaethau’r Cyngor mewn perthynas â thai anaddas.

9. Cyflawni swyddogaethau’r Cyngor i roi rhybuddion ac i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â thai amlbreswyl.

10. Cyflawni pwerau gorfodi’r Cyngor yn y sector tai preifat.

11. Cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â draeniau, cyflenwad dŵr a materion iechyd amgylcheddol eraill.

12. Awdurdodi rhyddhau lluniau wedi’u ffilmio ar TCC yn unol â’r Cod Ymarfer.

13. Awdurdod i ymgynghoriad gan Swyddogion Awdurdodedig sy’n gweithredu dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Archwilio 2000.

14. Penderfynu pa aelodau sy’n cael bod ar Is-bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu.

15. Rhoi trwyddedau yn unol â Rheoliadau Tân Gwyllt 2004.

16. Rhoi ac adnewyddu Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat, ac eithrio lle bo gan ymgeisydd neu ddeilydd trwydded gyfredol euogfarnau troseddol blaenorol wedi’u cofnodi yn eu herbyn. Yna, dylid ymgynghori ag Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros y Gwasanaethau Rheoleiddio (gweler Adran 5, Atodiad 1) i gadarnhau a ddylid cyfeirio’r mater ai peidio at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio i benderfynu arno.

17. Ar ôl ymgynghori ag Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros y Gwasanaethau Rheoleiddio (gweler Adran 5, Atodiad 1), atal neu ddiddymu trwydded Cerbydau Hacni a/neu Drwydded Gyrrwr neu Drwydded Hurio Preifat a / neu Drwydded Gyrrwr, lle credir y dylid gweithredu camau ar unwaith er lles diogelwch y cyhoedd. Dylid rhoi gwybod i Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu penodedig y Cyngor am unrhyw gamau gweithredu fel hyn.

18. Ymgymryd â Chytundebau Perfformiad Cynllunio i adennill costau o ran asesiadau Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

19. Gweithredu pwerau mewn perthynas â Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014.

20. Y pŵer i arfer camau gorfodi mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys y camau angenrheidiol i atal troseddau, addysgu a chyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ac mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Portffolio, i wneud cais am Orchymyn, a gwneud Gorchymyn o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

4.3.16 Pennaeth Tai Strategol

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn enwedig o ran y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

- Digartrefedd
- Gwella Tai
- Strategaeth Tai
- Datrysiadau Tai Conwy
- Tîm Adsefydlu
- Rheoli Ystadau ac Asedau

2. Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â digartrefedd.

3. Cymeradwyo neu wrthod a gweinyddu ceisiadau am grant gwella tai

4. Penderfynu ynghylch ceisiadau gan Aelodau o Staff mewn perthynas â dilyn y Polisi Cwtogi i Gynllun Atgyweirio Grŵp.

5. Yr awdurdod, yn amodol ar gytundeb gan y Deilydd Portffolio perthnasol, i ganiatáu prydlesi am dymor heb fod yn hwy na 7 mlynedd ar gyfer unedau diwydiannol unigol o fewn portffolio eiddo'r Gwasanaeth.

6. Cydlynu anghenion y Gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr

7. Cyfrifoldeb am reoli contractau cytundebau llain ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

8. Rheoli Asedau ac Ystadau – Gweithredu o ddydd i ddydd, mewn ymgynghoriad â Phrisiwr a Rheolwr Asedau'r Sir ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:

  - Gweithredu fel canolbwynt ar faterion eiddo er mwyn cynorthwyo i alinio asedau tir ac adeiladau ar gyfer darparu gwasanaeth yr Awdurdod.
  - Darparu argymhellion ar faterion yn ymwneud ag eiddo cyn iddynt gael eu cyfeirio at y Cabinet.
  - Defnyddio pwerau dirprwyedig ar faterion eiddo cymwys.

Materion eiddo cymwys:

i. Dyrannu eiddo’r Cyngor rhwng Adrannau Gwasanaethau.
ii. Cymeradwyaeth i symud ymlaen gyda thrafodaethau ynghylch caffael/gwaredu yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer gwneud penderfyniad i gaffael/gwaredu.
iii. Cymeradwyo rhoi neu gaffael hawddfreintiau/hawliau.
iv. Pŵer i roi neu i lofnodi prydlesi a thrwyddedau lle bydd yr ymrwymiad yn gyfyngedig i 7 mlynedd, a hyd at 25 mlynedd at ddibenion cael cyllid grant.
v. Y pŵer i roi buddiannau i ddarparwyr statudol.
vi. Y pŵer i awdurdodi caffaeliadau o hyd at £10,000.
vii. Y pŵer i gytuno ac amrywio materion prydlesi yn ystod cyfnod y brydles bresennol ac i gytuno ar ildio prydlesi yn amodol ar bremiwm o ddim mwy na £10,000.

- Lle bo hynny’n angenrheidiol, darparu argymhellion lle'r ymdrinnir â materion dan y Cynllun Dirprwyo.
- Cymeradwyo'r telerau ar gyfer prynu, caffael, gwerthu neu waredu buddiannau’r Cyngor mewn tir lle mae penderfyniad wedi ei wneud gan y Bwrdd, y Pwyllgor, y Deilydd Portffolio, yr Arweinydd neu’r Prif Swyddog sy'n cyflawni ei bwerau dirprwyedig i brynu, gaffael, gwerthu neu waredu.
- Mewn achosion priodol, talu iawndal dan Ddeddf Iawndal 1973, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Deddf Landlord a Thenant 1954, neu unrhyw achos o ddadfeiliad neu hawliadau tenantiaid.
- Trafod a thalu unrhyw hawliadau a gyflwynir yn erbyn y Cyngor am ddifrod neu golled a achoswyd gan waith a wnaed dan bwerau statudol y Cyngor.
- Ystyried y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol, ac i fonitro effeithiolrwydd a darpariaeth.
- Dechrau achosion meddiant trwy'r Llysoedd yn erbyn unrhyw denant, trwyddedai neu dresmaswr.
- Ystyried defnyddio a gwaredu eiddo dros ben, ynghyd â chyfleoedd i waredu a chaffael.

4.3.17 Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

1. Gweithredu ar ran y Cyngor o ddydd i ddydd ac o fewn y Cynllun mewn perthynas â materion sydd o fewn ei maes / faes gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â’r canlynol, ond nid yn gyfyngedig i’r rhain:

- Cytundebau, adneuon, trwyddedau, caniatâd a gorfodaeth dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a phob deddfwriaeth berthnasol arall.
- Adennill taliadau am drwyddedau am waith priffyrdd (fel bo hynny’n briodol).
- Adennill costau am orchmynion llwybrau cyhoeddus.
- Gorfodaeth mewn perthynas â chaenau a rhwystrau ar y briffordd.
- Niwsans ar y briffordd.
- Llwybrau diogel i’r ysgol.
- Addysg a hyfforddiant diogelwch ar y ffordd.

- Arolygu hawliau tramwy cyhoeddus.
- Mabwysiadu ffyrdd.
- Rheoliadau a/neu Orchmynion Traffig.
- Cynnal ymgynghoriadau statudol gyda'r Heddlu mewn perthynas â Gorchmynion Traffig bwriedig.
- Gorchmynion Parcio Anabl.
- Gweithredu Cod Taliadau Ymlaen llaw'r Cyngor.
- Cyflwyno pob rhybudd priodol mewn perthynas â materion y briffordd.
- Plannu coed, llwyni ayb ar y briffordd.
- Cynnal a chadw priffyrdd
- Darparu marciau ffordd, rheiliau, rhwystrau ac arwyddion nad ydynt angen cymeradwyaeth y Cynulliad.
- Polisi Cludiant Integredig
- Cludiant Cyhoeddus / Cymunedol
- Swyddogaethau wedi'u dirprwyo dan yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn unol â Chytundeb Partneriaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru.
- Cynnal Priffyrdd (gan gynnwys Hawliau Tramwy).
- Cyflawni swyddogaethau rheoli cefn gwlad.
- Gwaredu eitemau i'w hailgylchu / sbwriel
- Darpariaeth amwynder dinesig
- Gwastraff peryglus a chlinigol
- Gwastraff masnachol
- Cerbydau wedi'u gadael
- Glanhau strydoedd
- Casglu sbwriel
- Cynnal a chadw parciau a mannau chwarae plant
- Gwasanaethau garddwriaethol
- Mynwentydd ac amlosgfa
- Rheoli Risg Llifogydd
- Amddiffynfeydd y môr ac arfordirol gan gynnwys gweithredu fel awdurdod morol
- Cyfleusterau cyhoeddus
- Fflyd y Cyngor
- Rheoli a dylunio prosiectau adeiladu
- Tramffordd y Gogarth
- Caeau Chwarae
- Rhandiroedd
- Harbwr a'r arfordir
- Bioamrywiaeth
- Meysydd Parcio
- Rheoli Cyfleustera

2. Awdurdod i bennu'r ceisiadau canlynol:-

- dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.
- ar gyfer gadael sgipiau contractwyr ar y briffordd.

- cael caniatâd dan Adran 1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ynglŷn â chodi polion baner a gosod coed wedi'u torri neu mewn tybiau yn y briffordd.
- ar gyfer codi arwyddion dros dro ar y briffordd.
- ar gyfer caniatáu codi arddangosfeydd stryd uwchben neu ar draws y briffordd.
- mewn perthynas â Gorchmynion llwybrau cyhoeddus lle nad oes gwrthwynebiad.
- dan Rhan VIIA Deddf Priffyrdd 1980 ac unrhyw briffordd wedi ei mabwysiadu o fewn y Sir, ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Gweithredol perthnasol ac aelodau lleol.
- gan Wasanaethau Cyhoeddus i wneud gwaith ar y briffordd.
- mewn perthynas â gweithgareddau mewn mannau i gerddwyr a phriffyrdd wedi'u mabwysiadu mewn ymgynghoriad â'r Aelod Gweithredol perthnasol neu aelod(au) lleol.
- Ceisiadau heb wrthwynebiad am orchmynion cau.

3. Awdurdod i weithredu dan Adran 230 Deddf Priffyrdd 1980, mewn perthynas â gwaith trwsio brys i strydoedd preifat.

4. Awdurdod i bennu'r rhaglen o waith refeniw (ac eithrio'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn rhaglen Gyfalaf ac atodlenni cyn rhaglen y Cyngor) ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac i wneud y gwaith hwnnw.

5. Awdurdod i wneud sylwadau ar ran y Cyngor ynglŷn â chynigion neu Rybuddion drafft gan awdurdodau cyhoeddus eraill ar gyfer dileu neu ddargyfeirio priffyrdd neu lwybrau cyhoeddus.

6. Cael pob rhybudd a gwybodaeth gan ymgymerwyr dŵr a chynnal y cofrestri yn unol â Deddf Cronfeydd Dwr 1975.

7. Gweithredu parcio am ddim 'Am Ddim ar ôl Tri" ar gyfer cyfnod y Nadolig, gan gynnwys ystyried unrhyw geisiadau gan gynghorau tref a chymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Amgylchedd a Chludiant a'r Aelod Cabinet Cyllid ac Adnoddau.

8. Cymeradwyo digwyddiadau arbennig ym mharciau'r Cyngor mewn cysylltiad â Datblygu Cymunedol.

9. Gwneud gwaith brys mewn perthynas ag amddiffynfeydd morol, diogelu'r arfordir, draenio tir, llifogydd, glanhau a gweithredu fel arweinydd cymunedol gyda'r aelod gweithredol.

10. Gweithredu yn ôl yr angen i reoli materion ariannol gwasanaethau mewnol y Cyngor o fewn yr adran yn amodol ar gydymffurfio gyda rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol.

11. Gwneud Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r adrannau mewnol mewn perthynas â'r gwasanaethau mewnol

12. Pennu'r dyraniad o raglenni gosod celfi stryd newydd.

13. Ceisio gweithio gyda Chynghorau cymdogol, Cymunedol a Thref i gefnogi mentrau mewn perthynas â gwastraff rhanbarthol mewn ymgynghoriad â'r aelod gweithredol perthnasol.

14. Cyflawni swyddogaethau'r Cyngor dan Adran 23 a 24 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu unrhyw ddeddfiad arall mewn perthynas â choed peryglus.

15. Deddf Amddiffyn yr Arfordir

- Pŵer i ddyrannu Caniatâd Amddiffyn yr Arfordir ar gyfer gwaith a wnaed gan bartïon eraill
- Pŵer i gyflwyno rhybudd i berchnogion tir i gyflawni gwaith cynnal a chadw / atgyweirio ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol.

16. Deddf Draenio Tir

- Pŵer i gyflwyno rhybudd i berchnogion tir i gyflawni unrhyw waith cynnal a chadw / atgyweirio cwrs dŵr rheolaidd
- Pŵer i gyflwyno Caniatâd Cwrs Dŵr Rheolaidd ar gyfer unrhyw waith mewn cyrsiau dŵr rheolaidd

17. Deddf Argyfyngau Sifil

- Dyletswydd i ymateb i argyfyngau (llifogydd neu ollwng olew)

18. Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr

- Pŵer i ddynodi nodweddion sy'n cael effaith ar risg llifogydd i orfod cael caniatâd i'w haddasu neu eu tynnu
- Pŵer i gyflawni gwaith all gynyddu risg llifogydd yn amodol ar amodau gan gynnwys manteision sy'n drech na'r canlyniadau niweidiol
- Cronfeydd Dŵr

19. Mae Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau hefyd yn ymgymryd â rolau Swyddog Llygredd Olew y Sir, Deilydd Dyletswydd dan God Diogelwch Porthladd Morol ac Awdurdod Cymeradwyo Technegol ar gyfer dylunio ffyrdd a phontydd.

20. Yr Awdurdod i reoli a phenderfynu ar geisiadau Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy.

**ADRAN 14.8**

**Dirprwyaeth i Aelodau Unigol o’r Pwyllgor Gweithredol (Y Cabinet)**

Bydd y swyddogaethau Gweithredol canlynol yn cael eu dirprwyo i Aelod(au) fel y nodir:

Mae dirprwyo swyddogaethau Gweithredol i aelodau unigol neu grwpiau o aelodau yn golygu fod rhaid glynu'n llym at y rheolau yn ymwneud â chofnodi penderfyniadau gan aelodau o'r fath fel yr amlinellir yn y Rheolau Trefniadaeth Mynediad i Wybodaeth.

**Yr Arweinydd a Deiliad Portffolio Cyllid a’r Strategaeth Gyllid**

Awdurdod i ymgymryd ag unrhyw rai o’r swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo i Aelodau Gweithredol eraill mewn mater o frys ac yn absenoldeb yr Aelod Gweithredol perthnasol.

Awdurdod i benodi Aelodau ar Sefydliadau Allanol, yn dilyn ymgynghoriad gydag Arweinwyr Grŵp.

Awdurdod, ar y cyd â’r Swyddog Adran 151, i gymeradwyo pryniadau neu drafodion eraill a nodir fel rhan o Fwrdd y Rhaglen Tai a Digartrefedd hyd at £500,000.

Awdurdod i awdurdodi taliadau o gronfeydd Deddf Eglwys Cymru, mewn ymgynghoriad â Gweithgor Aelodau.

**Deiliad Portffolio Priodol**

Awdurdod, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth neu Benaethiaid Gwasanaeth perthnasol, i gymeradwyo rhoi grantiau hyd at £100,000 o dan gynlluniau a gymeradwywyd yn gynharach gan y Weithrediaeth.

Cymeradwyo'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau a osodwyd neu a ddiwygiwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol mewn ymgynghoriad â’r Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Effeithlonrwydd.

**Deiliad Portffolio Economi Gynaliadwy**

Awdurdod i gymeradwyo amserlenni talu ar gyfer talu am archebion ac i benderfynu ar sylfaen Treth y Cyngor.

Awdurdod i benderfynu ceisiadau ar gyfer:

(1) rhyddhad yn ôl disgresiwn o’r Ardreth Annomestig Genedlaethol ar gyfer achosion wedi’u huwchgyfeirio gan y Rheolwr Trethi Lleol i’w hystyried dan y Polisi Ardrethi Annomestig a’r Canllawiau ar gyfer Gostyngiad Dewisol mewn Ardaloedd Gwledig ac Oherwydd Caledi (Atodiad 1); a

(2) rhyddhad o’r Ardreth Annomestig Genedlaethol ar sail caledi

Awdurdod i gymeradwyo dileu dyledion, wedi i’r Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Effeithlonrwydd) argymell hynny, rhwng £2,500 (y swm sydd wedi ei ddirprwyo i Swyddogion) a £30,000, drwy ymgynghoriad â deiliad portffolio’r gwasanaeth perthnasol.

Awdurdod i gymeradwyo ceisiadau i Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Gyfunol, ar sail argymhellion Panel Partneriaeth Leol Conwy, hyd uchafswm o £500,000.

Awdurdod i gymeradwyo ceisiadau Cronfa Allweddol Conwy rhwng £100,000 a £249,999, yn dilyn argymhellion gan Banel Partneriaeth Lleol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Conwy.

Awdurdod i gymeradwyo unrhyw ddyraniad neu ail-ddyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Conwy (gan gynnwys y Rhaglen Rhifedd Oedolion Lluosi) ac yn cael ei ddosbarthu yn seiliedig ar asesiad o angen, mewn ymgynghoriad â Phanel Partneriaeth Lleol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Conwy.

Awdurdod i gymeradwyo gwaredu tir neu asedau eiddo a thir sydd wedi’u dosbarthu fel Man Agored Cyhoeddus yn cynnwys awdurdod i gyhoeddi’r Hysbysiadau Statudol angenrheidiol ar gyfer gwarediadau o’r fath (daliadau Rhydd-ddaliad a Lesddaliad a chaniatáu Hawddfreintiau neu Godi Cyfamodau Cyfyngol/Rhwymedigaethau Perthnasol), pan:

(1) Nad yw gwerth y gwarediad yn fwy na **£250,000**;

(2) Mae’r gwarediad yn unol â Pholisi Gwaredu’r Cyngor a gofynion cyfreithiol;

Bydd pob gwarediad sy’n uwch na’r trothwy yn cael eu cadw yn ôl i gael cymeradwyaeth y Cabinet.

**Deiliad Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig**

Awdurdod i gymeradwyo grantiau ariannol i sefydliadau gwasanaeth gwirfoddol o hyd at uchafswm o £15,000 i unrhyw un sefydliad mewn unrhyw flwyddyn.

**Dirprwy Arweinydd a Deiliad Tai, Digartrefedd a Newid Gwasanaeth**

Awdurdod i benderfynu ar Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl ar gyfer perthynas aelod o staff.

**Deiliad Portffolio Addysg**

Awdurdod i ymdrin â cheisiadau am grantiau nad ydynt yn uwch na £500 o’r Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysgol.

Awdurdod i ymdrin â phenodi Llywodraethwyr Ysgolion sy'n Cynrychioli'r Awdurdod Addysg Lleol.

Awdurdod i ddileu Llywodraethwyr Ysgolion sy'n Cynrychioli'r Awdurdod Lleol yn unol â Pholisi'r Cyngor ar gyfer Dileu Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Awdurdod i awdurdodi taliadau o Gronfa Rhagoriaeth Conwy, yn dilyn argymhellion gan Weithgor y Gronfa Rhagoriaeth, hyd at derfyn uchaf o £1000 fesul cais.

**Deiliad Portffolio Archwilio, Polisi a Pherfformiad**

I benderfynu ar achosion brys o dan weithdrefnau ii) a iii) yn Atodiad B o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle.

Gweithdrefn (ii): Dull i gynnwys Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol ar y gofrestr mewn ymateb i geisiadau cynllunio
Gweithdrefn (iii): Dull i gynnwys Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol ar y gofrestr – Ymateb i ymholiadau cyn cyflwyno cais

**Deiliad Portffolio Isadeiledd, Cludiant a Chyfleusterau**

Awdurdod i gymeradwyo'r rhaglen cynnal priffyrdd sydd wedi ei chynllunio.

Awdurdod i gymeradwyo'r rhestrau blaenoriaeth ar gyfer cynlluniau gwella priffyrdd yn dilyn ymgynghoriad gydag aelod(au) lleol.

Awdurdod i benderfynu ar geisiadau gaiff eu gwrthwynebu am orchmynion cau priffyrdd.

Awdurdod i benderfynu ar Orchmynion Rheoli Traffig gaiff eu gwrthwynebu.

**Deiliad PortffolioCymdogaeth a'r Amgylchedd**

Awdurdod i benderfynu ar Orchmynion Rheoli Cŵn gaiff eu gwrthwynebu.

I ystyried a phenderfynu ar Orchmynion Llidiartu pan gaiff sylwadau eu derbyn (ac eithrio'r sylwadau hynny fyddai'n golygu fod angen cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus).

## Adran 14.8 - Atodiad

| CYNGOR CONWY | | | | CONWY COUNCIL | |
|---|---|---|---|---|---|
| **A** | **GOSTYNGIAD DEWISOL ELUSENNOL** | **Mandadol / Mandatory** | **Dewisol / Discretionary** | **A** | **DISCRETIONARY CHARITABLE RELIEF** |
| **1** | **Neuaddau Pentref / Neuaddau Cymuned / Canolfannau Cymunedol** | | | **1** | **Village Halls / Community Halls / Community Centres** |
| (a) | Elusennau Cofrestredig | 80% | **20%** | (a) | Registered Charities |
| (b) | Elusennau heb eu Cofrestru | 0% | **100%** | (b) | Not Registered Charities |
| **2** | **Sefydliadau Ieuenctid** | | | **2** | **Youth Organisations** |
| (a) | Elusennau Cofrestredig gyda chysylltiadau lleol | 80% | **20%** | (a) | Registered Charities with local connections. |
| (b) | Elusennau heb eu Cofrestru gyda chysylltiadau lleol | 0% | **0-100%** | (b) | Not Registered Charities with local connections. |
| (c) | Elusennau Cofrestredig heb gysylltiadau lleol | 80% | **0-20%** | (c) | Registered Charities without local connections. |
| **3** | **Sefydliadau Dielw sydd ag Amcanion Dyngarol, Llythrennedd neu'n Delio â Chelfyddyd Gain** | | | **3** | **Non Profit Organisations Whose Aims Are Philanthropic, Literacy or Deal With Fine Art** |
| (a) | Elusennau Cofrestredig y mae pobl leol yn elwa arnynt, gydag aelodaeth sy'n agored i bawb | 80% | **20%** | (a) | Registered Charities that benefit local people and membership is open to anyone. |
| (b) | Elusennau Cofrestredig y mae pobl leol yn elwa arnynt, ond fod yr aelodaeth wedi ei chyfyngu | 80% | **0-20%** | (b) | Registered Charities that benefit local people but membership is restricted. |
| (c) | Elusennau heb eu Cofrestru ond y mae pobl leol yn elwa arnynt, gydag aelodaeth sy'n agored i bawb | 0% | **0-100%** | (c) | Not registered but benefits the local people and membership is open to anyone. |
| (d) | Elusennau Cofrestredig heb gysylltiadau lleol | 80% | **0%** | (d) | Registered Charities without local connections. |
| **4** | **Sefydliadau o Ddiddordeb Penodol i Rai e.e. Sefydliad y Merched, yr Henoed** | | | **4** | **Organisations of Specific Interest to Some e.g. Women's Institute, The Elderly** |
| (a) | Elusennau Cofrestredig y mae pobl leol yn elwa arnynt | 80% | **20%** | (a) | Registered Charities beneficial to the local people. |
| (b) | Elusennau heb eu Cofrestru ond y mae pobl leol yn elwa arnynt | 0% | **0-100%** | (b) | Not Registered Charities but beneficial to the local people. |
| (c) | Elusennau heb eu Cofrestru a heb gysylltiadau lleol | 0% | **0-100%** | (c) | Not registered charities and without local connections. |
| **5** | **Amgueddfeydd** | | | **5** | **Museums** |
| (a) | Elusennau Cofrestredig | 80% | **20%** | (a) | Registered Charities |
| (b) | Elusennau heb eu Cofrestru ond yn ddielw a phobl leol yn elwa arnynt | 0% | **100%** | (b) | Not Registered Charities but non-profit and beneficial to local people. |
| **6** | **Sefydliadau Addysgol Eraill neu'n Ymwneud â Diwylliant** | | | **6** | **Other Educational Organisations or Dealing with Culture** |
| (a) | Elusennau Cofrestredig y mae pobl leol yn elwa arnynt, gydag aelodaeth sy'n agored i bawb | 80% | **20%** | (a) | Registered Charities of benefit to the local people with open membership. |
| (b) | Elusennau Cofrestredig y mae pobl leol yn elwa arnynt, ond fod yr aelodaeth wedi ei chyfyngu | 80% | **0-20%** | (b) | Registered Charities of benefit to the local people but with restricted membership. |
| (c) | Elusennau heb eu Cofrestru ond y mae pobl leol yn elwa arnynt, gydag aelodaeth sy'n agored i bawb | 0% | **0-100%** | (c) | Not Registered but exists for the benefit of the local people and membership is open. |

| **CYNGOR CONWY** | | | **CONWY COUNCIL** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **A** | **GOSTYNGIAD DEWISOL ELUSENNOL** | **Mandadol / Mandatory** | **Dewisol / Discretionary** | **A** | **DISCRETIONARY CHARITABLE RELIEF** |
| **7** | **Colegau ac Ysgolion** | | | **7** | **Colleges And Schools** |
| **(a)** | Elusennau Cofrestredig e.e. Ysgol Rydal Penrhos | 80% | **0%** | (a) | Registered Charities e.g. Rydal Penrhos School. |
| **8** | **Siopau Elusen** | | | **8** | **Charity Shops** |
| (a) | Elusennau Cofrestredig Lleol | 80% | **20%** | (a) | Registered Local Charities |
| (b) | Elusennau Cofrestredig Cenedlaethol | 80% | **0-20%** | (b) | Registered National Charities |
| (c) | Elusennau heb eu Cofrestru ond y mae pobl leol yn elwa arnynt | 0% | **0-100%** | (c) | Not Registered but exists for the benefit of the local people. |
| **9** | **Chwaraeon Amatur / Cymdeithas Chwaraeon e.e. Clwb Rygbi** | | | **9** | **Amateur Sports / Sports Association e.g. Rugby Club etc.** |
| (a) | C.A.S.C (Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol) wedi ei gofrestru gyda Chyllid y Wlad | 80% | **0-20%** | (a) | C.A.S.C (Community Amateur Sporting Club) registered with the Inland Revenue. |
| (b) | Elusen Gofrestredig | 80% | **0-20%** | (b) | Registered Charity |
| (c) | Elusen heb ei Chofrestru ond y mae pobl leol yn elwa arni | 0% | **0-100%** | (c) | Not Registered but exists for the benefit of the local people. |
| **10** | **Sefydliadau nad ydynt yn Elusen Gofrestredig ond yn Elusennol wrth Natur** | | | **10** | **Organisations Which Are Not A Registered Charity But Charitable By Nature.** |
| (a) | Addysgol | 80% | **0-20%** | (a) | Educational |
| (b) | Cyffredinol, er budd y gymuned leol | 80% | **0-20%** | (b) | General, for the benefit of the local community. |
| **B** | **GOSTYNGIAD OHERWYDD CALEDI** | | | **B** | **HARDSHIP RELIEF** |
| | Pob achos i'w ystyried yn ôl ei haeddiant ei hun. Dylid ystyried yr holl ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar allu'r busnes i gyflawni ei atebolrwydd i dalu trethi. Dylid ystyried 'buddiannau' ehangach y gymuned, fel gwaethygu rhagolygon cyflogaeth neu ddiffyg cyfleusterau.<br><br>Gellir rhoi gostyngiad o hyd at 100%.<br><br>Gofynion deddfwriaethol (Adran 49, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988):-<br><br>Mae gan yr awdurdod bilio'r pŵer i leihau'r swm y mae'n rhaid i unigolyn ei dalu ar yr amod bod yr Awdurdod yn fodlon bod y canlynol yn berthnasol:-<br><br>• Y byddai'r trethdalwr yn wynebu caledi pe na bai'r awdurdod yn rhoi gostyngiad; a'i<br>• Bod yn rhesymol i'r Awdurdod roi'r gostyngiad gan roi sylw dyledus i fuddiannau Trethdalwyr y Cyngor.<br><br>Er nad oes diffiniad statudol o galedi, mae rhai canllawiau wedi eu darparu gan y llywodraeth i helpu i ystyried ceisiadau caledi. | 0% | **0-100%** | | Each case to be considered on its own merits. All relevant factors affecting the ability of the business to meet its liability for rates to be taken into account. Wider 'interests' of the community such as worsening employment prospects or lack of amenities to be considered.<br><br>Up to 100% relief can be awarded.<br><br>Legislative requirements (Section 49, Local Government Finance Act 1988):-<br><br>The billing authority has the power to reduce the amount a person is liable to pay provided the Authority is satisfied that the following apply:-<br><br>• The ratepayer would sustain hardship if the authority did not grant relief; and<br>• It is reasonable for the Authority to grant the relief having due regard to the interests of the Council Taxpayers.<br><br>Although there is no statutory definition of hardship some guidance has been provided by the government to assist in the consideration of hardship applications. |

| CYNGOR CONWY | | | CONWY COUNCIL | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (a) | Ni ddylai'r Awdurdod fabwysiadu dull cyffredinol, naill ai i roi neu beidio â rhoi gostyngiad. Dylid ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant ei hun. | | | (a) | A blanket approach, either to give or not to give relief, should not be adopted by the Authority, each application should be considered on its own merits. |
| (b) | Dylai unrhyw ostyngiad a roddir fod yn eithriad yn hytrach na'n drefn arferol. | | | (b) | Any relief granted should be the exception rather than the rule. |
| (c) | Nid oes angen cyfyngu'r prawf caledi i ystyriaethau 'ariannol', dylid ystyried yr holl ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar allu busnes i gyflawni ei atebolrwydd i dalu trethi. | | | (c) | The test of hardship need not be confined to 'financial', all relevant factors affecting the ability of a business to meet its liability for rates should be taken into account. |
| (d) | Gallai 'buddiannau' trethdalwyr lleol mewn ardal fod yn ehangach na buddiannau ariannol uniongyrchol. Er enghraifft, lle byddai rhagolygon cyflogaeth yn yr ardal yn gwaethygu petai cwmni'n methu, neu byddai'n arwain at lai o gyfleusterau mewn ardal, er enghraifft, unig siop y pentref yn gorfod cau. | | | (d) | The 'interests' of local taxpayers in an area may go wider than direct financial interests. For example, where the employment prospects would be worsened by a company going out of business, or the amenities of an area might be reduced by, for instance, the loss of the only shop in a village. |
| (e) | Lle byddai rhoi'r gostyngiad yn cael effaith andwyol ar fuddiannau ariannol trethdalwyr lleol, gallai'r achos dros ostwng trethi ddal i orbwyso'r gost i drethdalwyr lleol. | | | (e) | Where the granting of the relief would have an adverse effect on the financial interests of local taxpayers, the case for reduction of rates may still on balance outweigh the cost to the local taxpayers. |
| **C** | **GOSTYNGIAD DEWISOL AR Y DRETH** | | | **C** | **DISCRETIONARY RATE RELIEF** |
| | O 1 Ebrill 2012 mae gan y Cyngor y disgresiwn i roi Gostyngiad Dewisol ar y Dreth o hyd at 100% i sefydliadau sy'n gwneud elw. Gyda phob cais, dylid cynnwys copi o'r cynllun busnes a rhagolygon o'r llif ariannol ar gyfer y datblygiad, ac yn achos cwmnïau sydd wedi eu sefydlu, y copi diweddaraf o'r cyfrifon masnachu cyfredol, yn ogystal â chopïau o'r cyfrifon sydd wedi eu harchwilio ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf. | 0% | **0-100%** | | With effect from 1st April 2012 the Council has the discretion to award up to 100% Discretionary Rate Relief to profit making organisations. Each application should be accompanied by a copy of the business plan and cash flow forecast for the development plus, in the case of established companies, an up to date copy of the current trading accounts, plus copies of the last two years audited accounts. |
| (a) | Ni fydd yr Awdurdod yn mabwysiadu dull cyffredinol, naill ai i roi neu beidio â rhoi gostyngiad. Dylid ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant ei hun. | | | (a) | A blanket approach, either to give or not to give relief, will not be adopted by the Authority, as each application should be considered on its own merits. |
| (b) | Dylai unrhyw gais ystyried yr effaith ar hyrwyddo Conwy a'i gyfleusterau'n gadarnhaol. | | | (b) | Any application will consider the impact on the positive promotion of Conwy and its facilities. |
| (c) | Lle byddai rhoi'r gostyngiad yn cael effaith andwyol ar fuddiannau ariannol trethdalwyr lleol, gallai'r achos dros ostwng trethi ddal i orbwyso'r gost i drethdalwyr lleol. | | | (c) | Where the granting of the relief would have an adverse effect on the financial interest of local tax payers, the case for reduction of rates may still on balance outweigh the cost to the local taxpayers. |
| (d) | Gallai 'buddiannau' trethdalwyr lleol mewn ardal fod yn ehangach na buddiannau ariannol uniongyrchol. Er enghraifft, lle byddai rhagolygon cyflogaeth yn yr ardal yn gwaethygu petai cwmni'n methu, neu byddai'n arwain at lai o gyfleusterau mewn | | | (d) | The 'interests' of local taxpayers in an area may go wider than direct financial interests. For example, where the employment prospects would be worsened by a company transferring to another region outside Conwy, or the amenities of an area might be reduced by, for instance, the loss of the only shop in a village. |

| CYNGOR CONWY | | | CONWY COUNCIL | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ardal, er enghraifft, unig siop y pentref yn gorfod cau | | | | |
| (e) | Rhoddir gostyngiad dewisol yn unig i weithgarwch busnes sy'n masnachu o'r cyfeiriad sy'n gwneud y cais. | | | (e) | Discretionary relief will only be awarded to a business actively trading from the address for which the claim is being made. |
| (f) | Fel arfer rhoddir y gostyngiad i gwmnïau sy'n cychwyn o'r newydd neu gwmnïau sy'n ehangu ac sy'n symud i safle mwy, sy'n gallu dangos y bydd y busnes yn dod â mwy o fudd neu fuddion newydd i'r gymuned leol ac y bydd yn datblygu ac yn hybu'r ardal leol. | | | (f) | The relief will normally be awarded in respect of new start up companies or expanding companies moving to larger premises, who can show that the business will bring new or increased benefit to the local community and will develop and enhance the local area. |
| (g) | Rhoddir y gostyngiad hwn am gyfnod o chwe mis. Os gwneir cais am gyfnod pellach yna bydd angen darparu cais pellach, gyda chopi o'r cyfrifon masnachu cyfredol o fewn 30 diwrnod o ddiwedd y cyfnod hwn. | | | (g) | This relief will be granted for a period of six months. If a further period is requested then a further application, accompanied by an up to date copy of the current trading accounts is to be provided within 30 days of the expiry of this period. |
| | Mae hawl gan sefydliadau i apelio os ydynt yn credu eu bod yn haeddu mwy o ostyngiad nag eraill, a rhoddir ystyriaeth i geisiadau unigol o'r fath. Rhowch y manylion llawn a'u hanfon at y:<br><br>Rheolwr Treth Leol<br>Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>CONWY<br>LL32 8DU | | Organisations will have a right to appeal if they believe that they deserve more relief than others, and consideration will be given to such individual applications. Please address giving full details to:-<br><br>Local Taxation Manager<br>Revenue and Benefits Assessment Service<br>Conwy County Borough Council<br>Bodlondeb<br>CONWY<br>LL32 8DU | | |